YR YMOFYNYDD.

Rhif. 62.] CHWEFROR, 1864. [Ail Gyfres.

BYWGRAFFIAD Y PARCH. TIMOTHY DAVIS, EVESHAM.

(Parhad o tudalen 8.)

Yr oedd cymdeithas dysgedigion Coventry a'i hamgylchoedd yn fwy na digon o dâl i Mr. Davis am ymadael â bryniau cribog, a chornentydd iachusol sir Aberteifi. Yma mwynhaodd yn achlysurol gymdeithas y Parchn. William Field, Dr. Toulmin, Dr. Abraham Rees, Dr. Lindsay, Dr. Parr: a bu eu cyfeillach, yn neillduol yr eiddo Mr. Field, am yr hwn yr ysgrifena yn y modd mwyaf cymeradwy, yn foddion gan bwyll i newid ei olygiadau am berson Crist. O hyn allan nid ystyriai fod Iesu Grist o ran ei *berson* yn ddim mwy nâ dyn. Ymhen amser wedi i Mr. Davis ymsefydlu yn Coventry digwyddodd ei fod ef a Dr. Abraham Rees yn ymweled â Chymru yr un amser. Traddodasant ill dau bregethau a gawsant well derbyniad nâ chyffredin; a dymunodd y Cymry arnynt eu cyhoeddi ynghyd. Ysgrifenodd Mr. Davis at y Dr. i'r perwyl hyn. Ond gan ei fod ef wedi clywed fod ei gydwladwr ieuanc wedi rhoddi y syniadau Ariaidd, y rhai a goleddasai yn ei ieuenctyd i fynu, a'r rhai a goleddai y Dr. y pryd hwn, gwrthododd gydsynio â'i gais.—Ymlaenaf, meddai, oherwydd nad allai hebgor yr amser angenrheidiol i barotoi ei law-ysgrif i'r wasg; ac yn ail, am nad oedd y pregethau yn cynwys unoliaeth golygiadau. Wedi gwneuthur cydnabyddiaeth barchus o attebiad y Dr. y mae Mr. Davis yn ysgrifenu fel y canlyn: "Clywsoch yn iawn fy mod i wedi rhoddi athrawiaeth y Rhaghanfod i fynu; ond gallaf eich sicrhau mai nid heb lawer o anhawsder y darfu i mi wneud hyn; yr oedd rhagfarn fy nygiad i fynu a gogwydd fy nheimladau yn hollol o'i phlaid; ond nid allai fy meddwl orphwys yn foddlongar fod un prawf eglur a phenderfynol drosti yn y Testament Newydd. Bum am amryw flyneddau yn ffafriol i Ariaeth. Ac er nad allwn nodi un lle neillduol yn yr Ysgrythyr ag a fuasai yn bendant ar y pwnc; eto yr oeddwn yn meddwl fod canol sŵn yr Ysgrythyrau o'i phlaid. Ond pa mwyaf y chwiliais ac yr ystyriais y mater drosof fy hun, lleiaf i gyd o foddlonrwydd oeddwn yn gael yn fy syniadau blaenorol; ac o'r diwedd darfu i hollol ddystawrwydd yr Apostolion ar y pwnc yn eu pregethau, orchfygu fy meddwl yn gyfangwbl. Os yw yr athrawiaeth yn wirionedd, yr oedd yn ymddangos yn anghredadwy i mi y gallasent hwy fod yn ddystaw yn ei chylch. Oni fyddent wedi aros gyda brwdfrydedd a hyfrydwch ar ymddarostyngiad eu Harglwydd, a hyny mewn iaith nad ellid ei chamddeall; pe credasent ei fod ef wedi cymeryd arno natur dyn i'r dyben o ddwyn oddiamgylch iechydwriaeth yr hiliogaeth ddynol? Yr wyf fi yn cydnabod yn rhwydd y gallwn fyfyrio gyda mwy o hyfrydwch ar gariad Crist, pe byddai profion digonol ei fod ef wedi gadael

cyflwr o ogoniant rhag-hanfodol, gyda'r dyben gogoneddus o ryddhau dyn oddiwrth bechod a marwolaeth. Cymaint yw nerth fy ngolygiadau blaenorol a gogwydd fy nheimladau, fel yr wyf yn awr yn teimlo anhawsder mawr i gymhwyso'r gair—*dyn*, at ein Harglwydd Iesu Grist, er fod yr Apostolion yn eu pregethau wedi ei alw ef yn wr (dyn) profedig gan Dduw. Gellwch fy nghofio i yn dyweud fy meddwl yn eich presenoldeb, yn nhŷ Mr. Field, pan y gofynodd Dr. Parr i mi beth oeddwn yn feddwl am berson Crist. Ymresymodd y Dr. yn gadarn gydâ chwi dros mai dyn oedd Iesu Grist gyda'r *gocheliad hwn*—'Nid wyf yn dyweud mai dyma yw fy ngolygiadau, ond gellir dwyn y rhesymau hyn o'u plaid.' * * * Yr wyf yn mawr anghymeradwyo'r modd y mae rhai o'r dynion hyny ag ydynt yn credu mai dyn yn unig oedd Iesu Grist, yn siarad am Ariaid ac Ariaeth; ac nid wyf yn canfod llawer o nerth yn yr ymresymiad, nad oedd Crist yn esiampl briodol i ni os nad oedd ymhob peth yn ddyn fel ninau. Yn ol pob golygiadau *Cristionogol* a ffurfiwyd am dano, yr oedd wedi cael ei osod mewn amgylchiadau gwahanol iawn i'r eiddo dynol-ryw yn gyffredin. Yr oedd yn ymwybodol ei fod yn Fessiah neu Eneiniog Duw, a'i fod wedi cael ei addasu i ddwyn goruchwyliaeth yr Efengyl i'r byd. Yr oedd y gwybodaethau Dwyfol ag oedd ef wedi eu derbyn wedi rhoddi uwchafiaeth i'w feddwl, na wyr pobl gyffredin ddim am dano, ac felly yr oedd ymhob ystyr yn wahanol iawn iddynt." Bu hyder Mr. Davis trwy ei oes yn gryf yn awdurdod Cristionogaeth, fel dadguddiad Dwyfol ag oedd wedi ei gadarnhau drwy wyrthiau. Ac er y carai syllu ar weithredoedd anian yn gosod allan allu a doethineb y Crëwr mawr, eto nid oedd gwersi Duwinyddiaeth Naturiol yn ddigon pennodol *(definite)* i roddi boddlonrwydd i'w feddwl ef; ond ystyriai hwynt fel yn egluro ac yn cadarnhau addysgiadau awdurdodol yr Ysgrythyrau. Llawenychai ym mywiawgrwydd adnewyddol y gwanwyn gwyrdd, a theimlai mor gyffrous oedd y gobaith a gymhellai am adnewyddiad bywyd tudraw i fro dywell marwolaeth: eto ni orphwysai ef ei obaith ar hyn yn unig, ond credai fod ein sicrwydd am fyd a bywyd i ddyfod, yn gorphwys ar addewidion yr Efengyl, y rhai a gadarnheir gan adgyfodiad yr Iesu, blaenffrwyth adgyfodiad y meirw. Bu amserau, yn wir, yn ei fywyd, pan y chwenychai gael rhagor o sicrwydd, neu o'r hyn lleiaf o eglurdeb, mewn perthynas i'r pwnc hwn nag oedd ddichonadwy i dystiolaeth hanesyddol ei roddi iddo. Pan newydd gladdu ei anwyl frawd John, yr hwn a fu farw yn y Llwyn, Hydref 27ain, 1810, yn fuan wedi iddo ddychwelyd o wledydd estronol, dywed: "Diolch i Dduw am iddo gael d'od gartref i farw, a'i fod mor ymostyngar i'r ewyllys Ddwyfol. Y mae'r fath farwolaeth yn wastadol yn rhoddi cysur wrth feddwl am dani. O fy Nuw! fe ddaw'm tro innau yn fuan. Bydded fy mhrif ymdrech i ymbarotoi erbyn yr amgylchiad. A ydyw yn bechod i chwenych rhagor o sicrwydd mewn perthynas i'n sefyllfa ddyfodol?" Gan bwyll, daeth i deimlo ei fod yn feddianol ar y sicrwydd y bu cyhyd yn ei chwenych wrth weled cynifer yn marw mor dawel a hyderus, fel y gellir dyweud fod *marwolaeth* yn *dadguddio bywyd*. Oddeutu diwedd yr un flwyddyn ag y bu farw ei frawd, cafodd ei alw i ymweled â'i ewythr o Evesham yn ei gystudd olaf, yr hwn a fu farw ar y 7fed o Ionawr. Pregethodd Dr. Toulmin ei bregeth angladdol ef y Sabbath canlynol. Rhoddodd ei nai hanes ei farwolaeth, ynghyda rhanau helaeth o bregeth y Dr., yn y *Monthly Repository* am fis Ebrill, 1811. Anfonodd ei frawd, y Parch. D. Davis, Castellhywel, y llinellau canlynol mewn llythyr at ei fab—

"His philosophic, pious mind,
On storms still calm, in death resigned,
From dangers flown, enjoys above
His native element of love."

Ni fu holl ymweliadau Mr. Davis âg Evesham ddim o natur mor bruddaidd a'r ymweliad hwn; oblegyd yma y cyfarfyddodd â chydmares anwyl ei fywyd. Ar y 19eg o fis Medi, 1811, priodod âg Elisabeth, merch Mr. Anthony New, perchen gwlanfa *(woolstapler)*. Cyn a chwedi ymadael â Chymru rhoddodd Mr. Davis ran fawr o'i amser i gyfieithu Esboniad Dr. Coke i'r iaith Gymraeg. Ac er nad oedd ef ond gwasanaethu o dan yr awdwr am dâl, eto mae fod y gorchwyl wedi cael ei ymddiried i ofal Undodwr, yn dangos ysbryd rhydd. Dros amryw flynyddoedd wedi iddo fyned i Coventry, llafuriodd yn ddiwyd yng ngwaith y weinidogaeth gyda pharch a chymeradwyaeth pobl ei ofal, ac yn y mwynhad o ddedwyddwch teuluaidd dymunol iawn. Ond yn y flwyddyn 1818 collodd un o'r pedwar plentyn a aned iddo yn y dref hono: a bu anghydfod yn y gynulleidfa yn achos iddo roddi i fynu ei swydd yn eu plith. (Nid ydym yn gwybod dim am natur yr anghydfod yma yn ychwaneg na bod y gynulleidfa wedi myned yn ddwy ran, a'i bod yn gyfyng ar Mr. Davis rhwng y pleidiau gwrthwynebol; fel y mae yn rhaid iddi yn wastad fod ar weinidog lle mae yr aelodau yn ymranu yn eu plith eu hunain) penderfynodd ymadael â hwynt, a myned i Evesham. Pregethodd ei bregeth ymadawol yn Coventry ar yr 20fed o fis Mehefin, 1818, a dechreuodd ei weinidogaeth yn Evesham y Sabboth canlynol. Yma treuliodd y deugain mlynedd diweddaf o'i oes mewn heddwch parchus â'r gynulleidfa y bu yn ei bugeilio am 35 mlynedd, ac ynghanol cyfeillion ag y bu eu cydymdeimlad yn gysur mawr iddo wedi i flynyddoedd ei lafur cyhoeddus fyned heibio. Ar y cyntaf nid oedd ei waith mor galed ag ydoedd yn Coventry, ond oddeutu pen blwyddyn wedi iddo ymsefydlu, dechreuodd gadw gwasanaeth hwyrol yn Alcester mewn ychwanegiad at y gwasanaeth boreuol a phrydnhawnol a gadwai yn Evesham. Pregethodd ei bregeth gyntaf yn y lle hwn ar y 25ain o Orphenaf, 1819, gydag arwyddion ffafriol am lwyddiant. Bu yn gwasanaethu yma am amryw flynyddau. Wedi ychydig luniaeth ar ol y gwasanaeth prydnhawnol dringai ei ferlun, a hugan lwyd fawr am ei gefn, a sacasau am ei goesau, er amddiffyn ei hun rhag y tywydd, a ffwrdd y marchogai am ddeg milldir tuag Alcester, lle y byddai yn cael ei wobrwyo am ei ymdrechiadau wrth weled y dyddordeb a deimlid gan y gynulleidfa yn ei wasanaeth. Yr oedd hwn yn waith cenhadol; oblegyd er fod yno hen gapel hardd, yr oedd y gynnulleidfa wedi gwywo a diflanu. Fel yr oedd yn tynu ymlaen mewn dyddiau teimlai fod y gwaith hwn yn ormod iddo, a rhoddodd ef i fynu i ofal y Parch. Thomas Warren. O ran ei olygiadau crefyddol yr oedd Mr. Davis yn Undodwr o'r hen ysgol, neu yn ganlynwr Priestley; ond nid oedd ei barch a'i gydymdeimlad ef yn gyfyngedig i'r rhai oedd o'r un farn ag ef yn unig, ond yr oedd bob amser yn hynaws a thirion i bob enwad crefyddol.

Byddai yn wastad yn un o'r rhai blaenaf i gefnogi unrhyw fudiad a ystyriai yn dda. Bu yn aelod ffyddlon o'r *British and Foreign Unitarian Association* hyd ei fedd. Cyfarfyddodd â rhan ehelaeth o ofidiau a thrallodion y bywyd hwn; collodd chwech o'i blant pan yn fabanod ac yn ddynion ieuainc, a gwelodd briddo y rhan fwyaf o gyfeillion boreu ei oes, y rhai a allesid ddysgwyl fuasent i weled ei briddo ef. O ran hyny y mae son am

fywyd o bedwar-ugain mlynedd yn ddigon i adrodd hanes llawer o "gyfyngderau'r cystudd mawr." Yn y flwyddyn 1827 bu farw ei dad, yr hen batriarch o Gastellhywel, am yr hwn y dywed yn ei ddyddiadur "iddo gael y pleser pruddglwyfus o fod yn gwylio ei obenydd y noson olaf y bu fyw." Ar y 3ydd o Orphenaf anadlodd ei anadl olaf yn bedwar-ugain-a-thair blwydd oed. "Fel hyn y terfynodd fy mharchedig dad ei yrfa ddaearol—yn cael ei garu a'i barchu gan filoedd. Ei goffadwriaeth sydd fendigedig." Claddwyd ef dydd Sadwrn, y 7fed o Orphenaf. Tra yr oedd yr elor yn aros wrth y drws, llefarwyd ychydig eiriau, canwyd yr emyn honno o'i eiddo :

"Dy heddwch Ior, a gwel'd dy wedd
Yw'm cysur mwyaf hyd y bedd,"

a gweddiwyd ; yna cludwyd y corff i gapel Llwynrhydowen, yr hwn oedd yn agos i'r anneddle, a chwedi canu yr emyn arall hono o'i eiddo,

"Nid ofnaf er fod Brenin braw
A'i arf anelog yn ei law."

darllen a gweddio, pregethodd y Parch. D. L. Jones, athraw yn ngholeg Caerfyrddin, oddiwrth 1 Pedr i. 7, 8. Yr oedd y capel yn orlawn, y cyntedd o'i flaen, ynghyd a'r ffordd rhyngddo a'r tafarndŷ. Dywedir fod yno o fil i bymtheg cant o ddynion. Ar ol hyn aeth y gynulleidfa fawr yn araf a phruddaidd dros y bryn tua Llanwenog, oddeutu pedair milldir o bellder. Cludid y corff ar elor gan bedwar dyn ar gylch yn ol trefn yr ardal."

Cyhyd ag y bu ei rieni ar dir y byw, byddai Mr. Davis gyda gwir serch mabaidd yn fynych yn ymweled â hwynt. Ar yr amgylchiadau hyn byddai yn pregethu yn nghapelau ei dad gyda derbyniad cyffredinol. Ar gais ei gyfeillion Cymreig cyhoeddodd ddwy o'r cyfryw bregethau o dan yr enwau canlynol : "Cyfarwyddiadau ac Annogaethau i chwilio yr Ysgrythyr Sanctaidd, mewn pregeth a draethwyd yn Alltyblacca, yn swydd Ceredigion, mewn cyfarfod o weinidogion, Mai y 6fed, 1832 :" "Peryglon a dyledswyddau bywyd : pregeth yn angladd Benjamin Jones, o Goedlanau-fach, Mehefin 26ain, 1835, yr hwn a foddodd yn y môr yn ddisymmwth, ac yn angladd Mary James, Blaenycwm, Mehefin 30ain, 1848." A ganlyn ydynt y rhai a gyhoeddodd yn Saesoneg :—"*Serious Admonition to the Young ; On the Great Duty of remembering their Creator : in a Discourse delivered at the Presbyterian chapel, Oat-street, Evesham, on the 5th of January*, 1834 ;" "*A Sermon on the Season of Spring, delivered in the same place on Sunday, the 18th of May*, 1834 : *On Public Worship and the Unity of God : Two Sermons preached at the chapel in Manchester Place, Cheltenham, formerly belonging to the Society of Friends, on occasion of the said chapel being opened for the worship of one God the Father, through Jesus Christ.*" Yr oedd Mr. Davis wedi cymeryd llawer o lafur mewn cysylltiad â dechreuad ac â chynydd yr achos yn y lle diweddaf hwn, tŷ addoliad amserol yr hwn y cafodd yr anrhydedd o'i agor. Fel yr oedd yn tynu ymlaen mewn dyddiau gwanhaodd ei nerth gymaint fel yr oedd yn teimlo ei hun yn analluog i gyflawni gwaith y weinidogaeth gyda'r bywiawgrwydd a ystyriai yn angenrheidiol ; ac yn deimladwy o'i wendid rhoddodd ei ofal gweinidogaethol i fynu ar y 17eg o Orphenaf, 1853, mewn llythyr at yr eglwys fel y canlyn : —"At y gynulleidfa o Ymneillduwyr Protestanaidd a ymgynullant i addoli yn nghapel Oat-street, Evesham, y rhai a elwir yn gyffredin Presbyteriaid. Fy nghyfeillion Cristionogol, wedi treulio pedair blynedd-ar-ddeg-ar-hugain yn

eich plith, ac yn awr yn teimlo fod gwendid henaint yn fy ngorddiwes, yr wyf yn dymuno eich hysbysu y byddaf yn rhoddi fy swydd i fynu Gwyl Fair nesaf, fel y galloch gael cyfleusdra yn y cyfamser i edrych am ryw un i lanw fy lle; yr hwn, gobeithiaf, a fydd yn llwyddianus i ledaenu'r gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, a'ch adeiladu i fynu mewn ysbryd a bywyd Cristionogol. Gan deimlo'n ddiolchgar am yr heddwch a fu rhyngom dros gynifer o flynyddoedd, ac am yr amrywiol arwyddion o garedigrwydd a chywirdeb a gefais oddiwrthych oll, yr arhosaf, gyda'r dymuniadau goreu am eich cysur tymhorol a thragywyddol,

Eich ffyddlon gyfaill, TIMOTHY DAVIS."

Mae atteb yr eglwys i'r llythyr uchod (yr hwn sydd yn rhy faith i'n gofod yn bresenol, ond yr hwn, ynghydag eraill a fu rhwng Mr Davis a'r eglwys, o bosibl, a fydd i ymddangos yn yr YMOFYNYDD, gan bwyll, yn dangos fod yr un teimladau yn cael eu mynwesu gan yr eglwys tuag ato ef, ag a fynwesai ef tuag atynt hwy. I ddyn fel Mr. Davis, yr hwn oedd yn wastad a'i holl galon yn ei waith, yr oedd yn orchwyl anhawdd, i dorri'r cysylltiad agos a hoff a fu rhyngddynt dros gynifer o flynyddoedd. Yn ei Ddyddiadur am yr un dydd dywed: "Ar ol y gwasanaeth prydnawnol, darllenwyd fy llythyr i'r eglwys, yn hysbysu fy mwriad i roddi i fynu fy ngofal gweinidogaethol. Aethum drwy y gwasanaeth gyda mwy o rwyddineb a blâs nag arferol, am yr hyn yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar. Wrth ddyfod adref o'r Capel, nid allwn lai na thywallt dagrau yn llif ar yr achlysur. Bum un flynedd-ar-ddeg-ar-hugain yn y weinidogaeth, cyn i mi ymsefydlu yn Evesham. Pregethais y waith gyntaf yn Llwynrhydowen Mai 19eg 1799, haner can mlynedd i Mai diweddaf." Ar ddiwedd ei weinidogaeth, yn y Gwanwyn canlynol, cafodd yr hyfrydwch mawr o weled yr eglwys yn gwneud amlygiad cyhoeddus o'u serch a'u hymlyniad wrtho. Ar y 30ain o Fawrth, 1854, cynhaliwyd cyfarfod cyfeillachol yn y Capel, i'r dyben o'i anrhegu ef â llestri arian tê a choffi *(silver tea and coffee service)*, "ar ddiwedd y bedwaredd-flwyddyn-ar-ddeg-ar-hugain o'i weinidogaeth yn eu plith, fel tystiolaeth o'u parch mawr iddo." Dros ychydig o flynyddoedd ymhellach parhaodd i addoli gyda'i gyn-ddiadell, o dan weinidogaeth ei ganlyniedydd—y Parch. J. C. Lunn; ac yn achlysurol pregethai yn yr hen areithfa. Yn ei Ddyddiadur am Chwefror, 1855, ysgrifena fel y canlyn: "Mae fy niwedd fy hun yn fuan yn agoshau. O am fod yn barod i gyfarfod â'r cyfnewidiad pwysig, i gyfarfod ag ef gyda boddlonrwydd tawel a chwbl ymddiried yn y daioni dwyfol ag ydwyf wedi brofi drwy gydol bywyd maith."

Ar ddyfodiad blwyddyn newydd, arferai ysgrifenu ei feddyliau mwyaf cysegredig, gan goffhau dydd ei enedigaeth, ei briodas, genedigaeth ei blant, a marwolaeth cynifer ag a ymadawsent â'r byd o'i flaen, a chan gydnabod gyda diolchgarwch y bendithion a fwynhaisai, ei ofid am yr hyn a ystyriai oedd wedi bod yn anmherffaith ynddo, ei ddymuniadau, ei hyder, a'i obaith am anfarwoldeb tudraw i'r bedd, a'r argyhoeddiad dwfn a chysurlawn a deimlai yn ei feddwl, y cai holl rai rhagorol y ddaear eu hail-uno mewn gwynfyd didranc. Yma yr oedd ei feddwl yn canolbwyntio megys mewn cartrefle; ac yr oedd ei ffydd ynghariad Duw yr hwn a amlygwyd yn Efengyl a bywyd Crist, yn ei lanw â hyder mabaidd dan holl dymhestloedd bywyd, ac â gobaith eryf y byddai i'r bywyd dyfodol i adferu i'w cartrefle nefol ei holl anwyliaid, a gollasai yn yr angeu. Gan bwyll, ni welid ei wedd serchog a boneddigaidd

yn ei le arferol ymhlith ei gyd-addolwyr. Yr oedd gwendid natur yn ei anallugoi i fyned tu allan i furiau ei dŷ. Ond yma, nid oedd dim a roddai fwy o foddlonrwydd iddo na gweled ei gyfeillion yn talu ymweliad âg ef; a phan y deuent byddai yn mwynhau eu cyfeillach yn fawr.

Cymerwyd ef yn glaf iawn yn mis Awst, 1858; ac ofnid na wellhai o'r cystudd hwnw, ond adferwyd ef dros ychydig. Yn mis Hydref 1859, drachefn, cafodd ergyd ysgafn o'r parlys, yr hyn a wanhaodd ei nerth ac a effeithiodd ychydig ar ei lafariad. Bu yn cadw ei wely yn hollol o'r 16eg o Fai, 1860, hyd yr 28ain o Dachwedd yn yr un flwyddyn, pryd yr anadlodd ei anadl olaf, yn dawel ac esmwyth, pan yn wyth niwrnod a phedwar ugain ac un flwydd oed. Cafodd y fraint o gael cydmares anwyl ei fywyd i wylio ei obenydd yn ei gystudd olaf, yn cael ei chynorthwyo gan eu dwy ferch oeddynt heb briodi.

Cynhwysai ei eiriau olaf weddiau diolchgar, hyder cryf, a chydnabyddiaeth wresog o'r cariad oedd yn esmwythau ei obenydd, cof am enw yr anwyl Iesu, ac uwchlaw'r cyfan amlygiad o'i rwymedigaethau i "Dad y trugareddau a Duw pob dyddanwch" am ei ddoniau anhraethol. Hebryngwyd ei weddillion i'r bedd gan luaws mawr o wŷr parchus o amrywiol enwadau crefyddol; a chyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. C. Lunn, yr hwn hefyd a bregethodd ei bregeth angladdol. Fel hyn y bu fyw a marw y gwr dduwiol hwn.

PARKER A'R ENW CRISTION.

Mr. Gol.,—Nid af i swmio i fynu y profion aml, a roddais yn y ddau lythyr blaenorol, i ddangos fod Parker wedi rhoddi Crist'nogrwydd i fynu, a'i henw hefyd, yn ei hen ystyr o leiaf; cymmerai hynny ormod o le, gan fod genyf lawer i ysgrifenu ar y trydydd peth a addawais—yr enw y mae Parker yn roddi i'w grefydd. Os oedd amherffeithderau, cyfeiliornadau gwaradwyddus yn holl grefyddau y byd, Crist'nogrwydd yn eu plith; y mae'n gwawrio bellach, y mae crefydd newydd wedi ymddangos, yn llawn perffeithrwydd a phob rhagoroldeb, yn ol barn Parker; ei Duw yn anfeidrol, doeth a da, yn lle'r Duw meidrol, ffol a chreulon oedd ef yn weled ymhob man arall, hyd yn oed deistiaeth ei hun a'i Duw meidrol; ac enw'r grefydd newydd hon, yn ol Parker ei hun, yw Theism, yna mae yn rhaid mai Theist yw ei enw dewisedig ef, ac nid Cristion. Er mwyn rhwyddau ein gwaith y mae'n angenrheidiol dangos mai yr un peth yw Theism, yr *Absolute Religion*, a chrefydd nattur; tri enw ar yr un peth ydynt; ac y mae'r grefydd hon weithiau yn cael ei galw ganddo *The Philosophical Method, the Philosophic Idea;* felly yn gymwys y gwnai'r Deistiaid diweddar hefyd; ymfalchient yn yr enw *Philosophyddion.* Yn ei bregeth ar *Practical Theism*, ar tud. 132 o'i *Theism, Atheism, and the Popular Theology*, y mae Parker yn dywedyd, "Wel, y fath fydd y ffurf o grefydd yn deilliaw o Theism; y fath ei duwioldeb a'i moesoldeb. * * * Felly y mae'r Absolute Religion yn deilliaw oddiwrth ddatguddiad gwirioneddol Duw, cynwysedig yn y bydysawd." Felly dyna'r Absolute Religion a Theism yr un gydag ef. Ar tud. 136 o'r un gwaith y mae crefydd nattur a'r Absolute Religion yr un. "Dyma fydd amcan saint crefydd nattur. * * * Y mae yn rhaid i saint gwirioneddol yr Absolute Religion fod yn ddyn rhydd ysprydol." Yn awr, Mr. Gol., y mae'n eglur mai yr un yw'r tair. "*Things which are equal to the same thing are equal to one another.*" Yn awr, syr, os y cawn, mai yn Theism, yr Absolute religion, crefydd nattur neu'r *philosophic method* mae pob ardderchawgrwydd, yn ol barn Parker, yna y mae'r casgliad yn anocheladwy, mai Theist ac nid Cristion oedd ef. Wel, ni a ymdrechwn brofi y gosodiadau canlynol bob yn un ac un. Fod Parker yn dywedyd—"Fod ysprydoliaeth wirioneddol yn perthyn i Theism yn lle'r ffugiol, y breuddwyd sydd mewn crefyddau eraill."—"Fod ei Duw yn berffaith, anfeidrol a da, yn lle'r Duw meidrol a drwg oedd gan Grist ei hun."—"Ei

hanfarwoldeb ar well sail na ffug-chwedlau anwireddus y Bibl."—"Mai nattur yw sail ei grefydd a'i ddatguddiad ef."—"Mai nattur a dyn yw ei hen destament a'i newydd ef."—"Fod gwasanaeth y grefydd newydd yn fwy perffaith."—"Ei seintiau a'i phrophwydi yn well."—"Ei menywod yn uwch."—"Nad oes un grefydd ond hi yn gwarafun caethiwed *(slavery)*."—"Nad oes un llyfr na dyn, ond nattur a chydwybod yn unig yn *awdurdod* yn ei golwg."—"Fod pob crefydd arall i ddarfod, a hon yn unig i lwyddo."

Cyn profi'r gosodiadau uchod yr wyf am alw sylw'r darllenydd at un peth, sef, pan na fyddo dim o flaen y dyfyniadau, dim ond y rhif yn unig, y gyfrol ar *Theism, Atheism, and the Popular Theology* a feddylir; pan byddo'r cyfrolau yn cael eu nhodi, megys I, II, &c., Gwaith Parker gan Miss Cobbe a feddylir; B. C., *Bread cast on the Waters*, yn cynwys pedair pregeth gan Parker; C. M., *Critical and Miscellaneous Works, by Chapman.*

Yn awr ni a awn at y *definition* y mae Parker yn roddi o Theism, yn ei bregeth gyntaf ar "*Speculative Theism regarded as a Theory of the Universe.*" Tud. 103, "Yn awr yr wyf yn dyfod at destun llawer mwy pleserus,—sef y *meddwl philosophaidd* am Dduw. Felly yr wyf yn galw eich sylw at bregeth ar '*Speculative Theism, considered as a Theory of the Universe*, (neu Theism fel athrawiaeth); dydd Sul nesaf yr wyf yn gobeithio llefaru ar Theism fel Egwyddor Ymarferiad. * * * Yr wyf yn arfer y gair Theism, fel y gwahaniaethir oddiwrth Atheism; hynny yw, oddiwrth ymwadiad hollol o bob meddyldrych possibl am Dduw. Yn ail, fel ei gwahaniaethir oddiwrth y dduwinyddiaeth boblogaidd, yr hon yn wir sydd yn haeru fod Duw, ond yn priodoli iddo garacter meidrol, ac yn ei wneuthur ef yn Dduw creulawn. Ac yn drydydd, fel ei gwahaniaethir oddiwrth Ddeistiaeth, yr hon sydd yn haeru fod Duw heb garacter creulawn y dduwinyddiaeth boblogaidd, ond er hynny yn dechreu ei thaith oddiwrth philosophyddiaeth deimladol *(sensational philosophy)*, yn gorphwys ar ddefnyddiolaeth *(materialism)*, yn tynu ei mheddwl am Dduw yn unig trwy gasgliad *(induction)* oddiwrth ymddangosiadau nattur sylweddol, neu hanes dynol, gan adael allan o'r golwg ymwybodaeth y nattur ddynol; ac felly yn cael ei mheddwl am Dduw yn unig oddiwrth sylw, a dim oll oddiwrth ymwybyddiaeth *(consciousness)*, ac felly y mae'n gosod Duw allan fel yn feidrol ac amherffaith. Yr wyf yn arfer y gair mewn gwrthwynebiad i Atheistiaeth, gwadu Duw: i'r *Popular Theology*, yr hon sydd yn gosod allan Dduw meidrol a chreulawn; ac i Ddeistiaeth, yr hon sydd yn gosod allan Dduw meidrol heb greulonder. Cymmaint a hynna am eglurhad geiriau." Sylwed y darllenydd fod Parker yma yn gwneyd Theism a'r *philosophic idea* yn un. Yn awr ni a awn i brofi'r gosodiadau uchod trwy ddyfyniadau allan o waith Parker.

Yn gyntaf y mae Parker yn honni hawl mewn ysprydoliaeth yn awr, gwell na'r breuddwyd a aeth heibio. Yr ydym wedi gweled hyn eisioes ragor nag unwaith, gan hynny nid oes angen wrth lawer o ddyfyniadau dan y gangen hon. Tud. 129, dywed Parker fel hyn, yn ei bregeth ar Theistiaeth Ymarferol, "Ni fydd Duw yn cael (yn ol Theistiaeth) ei ystyried ymhell ymaith, ar wahan oddiwrth Nattur, ar wahan oddiwrth ddyn, ond yn aros yno, yn ymdemlu *(immanent)* ymhob un o'r ddau, ac etto yn tra rhagori ar bob peth. Edrychir ar Nattur fel *datguddiad* Duw; a gwnaiff cynnydd *(march)* dyn hefyd ddatguddio yr un Ragluniaeth, a'r byd o sylwedd,—ymwybodolrwydd dyn yn amlygu nodweddiadau uwch yr Anfeidrol Dduw. Bydd cymundeb ag ef yn uniongyrch, fy yspryd i yn cyfarfod â'i Yspryd Ef, heb ddim rhyngof â duwdod Duw, Ni weddiaf trwy ddirprwywr (*by attorney*), ond wyneb yn wyneb. *Bydd ysprydoliaeth yn ffaith yn awr*, ac nid yn unig hanes amseroedd a aethant heibio." Vol. III., 54, "Bydd eglwys sydd yn credu yn unig mewn ysprydoliaeth gynt, yn appelio at hen lyfrau fel *standard* gwirionedd a ffynon goleuni; bydd yn hynafiaethol yn ei harferion; geilw ei phlant wrth hen enwau; a gwnaiff ryfela yn erbyn yr oes newydd, heb ddeall y dyn-blentyn (*man-child*) a aned i lywodraethu'r byd. Gwnaiff eglwys sydd yn credu *mewn ysprydoliaeth yn awr* APPELIO *at Dduw*, brofi pethau trwy reswm a chydwybod, amcanu passio heibio yr hen wroniaid." Tud. 268—271, "Y mae dynion yn siarad am *ysprydoliaeth*, am ddyfodiad y Duwdod i mewn i'n henaid. Yr wyf yn meddwl, medd Parker, ei fod *yn ffaith*, nid gwyrthiol ac eithriadol, ond rheolaidd a dibaid (*normal and instantial*); ac mor bell ag y byddo dyn

yn arfer ei gynheddfau natturiol yn y ffordd natturiol hon, y mae gallu dwyfol y byddyssawd yn llifo iddo ac yn gweithredu trwyddo, fel gallu llysieuog i'r planhigion heirdd yma. Arferiad ffyddlon y cynheddfau yw ammod yr ysprydoliaeth ddwyfol hon, a gwirionedd, harddwch, cyfiawnder, purdeb, dyna ei phrawf-feini. Yn awr os gwnaiff dyn brofi y dull philosophaidd hwn," &c. 271, "Yna ni fydd gweinidogion a gwleidiedyddion ya ceisio cyfiawnhau cam pur-adnabyddus trwy ddyfynu testunau o'r Beibl, y Koran, neu Saint, na ŵyr neb pwy; ond allan o brofiad dynolryw gynt ac ymwybodolrwydd dynolryw 'nawr, ac ysprydoliaeth wirioneddol Duw'n bresennol, ag a dynant gyfraith anghyfnewidiol uwch wirionedd, cyfiawnder, cariad, ac a wnant y rhai hyn yn ddeddfau dynolryw, hyd nes delo cyfansoddiad y bydyssawd yn gyfraith gyffredin y bobl." B. C., 52, 65, "Nid mewn dyn mae prawf-faen yspryd'oliaeth (gyda'r eglwys Grist'nogol); nid Gwirionedd at bethau dealltwriaethol; na Chyfiawnder at bethau moesol; na Chariad at bethau serchiadol. Gwyrth ydyw—hynny yw, yr hyn a ddywedir am wyrth. * * * Nid rhaid i chwi a minnau ddisgwyl am y fath ddynion, ond i gymmeryd y Gwirionedd yn ddiolchgar, rhan a rhan, ychydig yma ac ychydig accw, a derbyn gwasanaeth pwy bynnag a all gynnorthwyo, heb gymmeryd un dyn yn feistr—na Chalvin, na Luther, na Phaul, na Ioan, na Moses, na'r Iesu—agor ein henaid i'r anfeidrol Dduw, yr hwn fydd yn sier o ddyfod i mewn heb gloch, llyfr, na chanwyll." Dyna'r gosodiad cyntaf wedi ei brofi. Awn at

Yr ail. *Fod Duw Theistiaeth yn anfeidrol ddoeth, galluog a da, yn lle Duw meidrol a drwg oedd hyd yn oed gan Grist ei hun.* 74, "O'r tu cefn i gwmmwl tywyll a tharanllyd y grefydd boblogaidd, pa mor hardd y mae goleuni tawel a chlir y grefydd ddynol natturiol yn dyfod allan, gan ddatguddio Duw i ni fel Anfeidrol Dad, Anfeidrol Fam pawb, perffaith alluog, perffaith ddoeth, perffaith gyfiawn a chariadus, a pherffaith sanctaidd hefyd! Yna mor brydferth yw'r bydyssawd! Bibl mawr Duw ydyw:—nattur sylweddol yw yr Hen Destament, miliynau o flynyddau o oedran, yn disgleirio gan wirioneddau dan ein traed, yn gwreichioni gan ddisgleirdeb uwch ein pen; a'r nattur ddynol yw'r Testament Newydd oddiwrth yr Anfeidrol Dduw, bob dydd yn datguddio tudalen newydd fel y mae Amser yn troi'r ddalen. Y mae anfarwoldeb yn sefyll yn barod i roddi tâl am bob rhinwedd fyddo heb ei gwobrwyo, pob deigryn heb ei sychu ymaith, pob tristwch anobrwyedig, pob gweddi, am bob bwriad pur y galon. A thros y cwbl,—yr Hen Destament a'r Newydd,—Marwoldeb ac Anfarwoldeb,—y mae Trugaredd Anfeidol Duw y Tad, yn dyfod i lawr gan daenu ei adenydd fel aderyn dros ei nyth, ïe, gan ein cymmeryd ni i'w freichiau anfeidrol ei hun, a'n bendithio â'i hunan." 107, "Y mae'n rhaid fod ganddo (Duw) berffeithrwydd Bodoliaeth, hunanfodoliaeth; perffeithrwydd gallu, hollalluawgrwydd; perffeithrwydd meddwl, hollwybodaeth; perffeithrwydd cydwybod, holl-gyfiawnder; serch, holl-gariadus; enaid, holl-sanctaidd, perffaith hunan-ffyddlondeb." 107, "Yma y mae yr un peth i'w ddywedyd ag am nattur; sef, fod yn rhaid i'r Anfeidrol Dduw fod yn achos perffaith o honi, a chreu'r byd o ddyn o berffaith amcan, i berffaith ddiben, o sylwedd perffaith, fel moddion perffaith." 124, "Ond y mae'r dyn a Theistiaeth bur yn ei galon, yn edrych allan ar y byd, ac yno y mae'r Anfeidrol Dduw ymhob man fel Achos perffaith, ymhob man fel Rhagluniaeth berffaith, yn uwch na phawb, ac etto yn ymdemlu ymhob un; gallu, doethineb, cyfiawnder, sancteiddrwydd a chariad anfeidrol, yn sicrhau gwynfyd perffaith i bob un a phawb." B. C., 65, "Pan y byddo dyn yn canlyn y dull *naturiol* a *philosophaidd* hwn o dduwinyddiaeth, yn cymmeryd ei ffeithiau oddiwrth ymwybodolrwydd yn ei fyd ei hun, ac oddiwrth arsylliad yn y byd o sylwedd, yna y mae'n dyfod o hyd i'r meddyl-ddrych philosophaidd am Dduw o anfeidrol berffeithrwydd. Fod gan Dduw holl gynheddfau bodoliaeth hollol a pherffaith; fod ganddo anfeidrol allu i weithredu, Anfeidrol Feddwl o wybod, Anfeidrol Gydwybod i ewyllysio yr hyn sydd iawn. Anfeidrol serch i garu, Anfeidrol sancteiddrwydd i fod yn ffyddlon i'w serchiadau, ei gydwybod, ei feddwl, ei allu." 68, "Gan y meddyl-ddrych philosophaidd y mae Duw i bob cenhedl, i bawb dynion, yn ysprydoli Groeg rydd a Rhufain bwyllog yn gystal (*not less*) a Judea dduwiol—Duw i fabanod taenelledig, ac i fabanod heb eu llychwino oll â dwylaw; Duw i Jacob ac Esau, Iuddew a Chenhedl-ddyn; Duw gan yr hwn y mae

dynolryw yn anwyl, Tad a Mam i'r hil ddynol!" Ddarllenydd hynaws, i bwy grefydd y mae Parker yn perthyn, 'nawr, debygit ti? Ai nid i'r Theism, grefydd nattur, yr *idea* philosophaidd yma, sydd â Duw mor berffaith ganddo? Canad beth yw dy farn di, dyna yr ail osodiad wedi ei brofi, yn ol fy marn i. Awn gan hynny at y

Trydydd gosodiad. *Fod anfarwoldeb Theistiaeth ar well sail na ffug-chwedlau anwireddus y Bibl.* Vol. III, 127-8, "Y mae'n rhaid ymhelaethu ar anfarwoldeb dyn. Gellir dangos hyn nid trwy bethau y tu allan i ni, dim oll trwy ddyfynu storiau na allant fod yn wir, ond trwy ddadblygiad (*developement*) ffeithiau wedi eu gosod yn reddfol yn ymwybodolrwydd pawb." Dyna ddigon ar hyna eto. Awn at y

Pedwerydd gosodiad, sef *Mai Nattur yw sail crefydd a datguddiad Parker.*—Y mae hyn etto wedi dyfod i'r golwg eisioes ragor nag unwaith; ond wele ragor ar y matter. 262, "Y mae ymwybodolrwydd dyn yn cyhoeddi cyfraith Duw. Ar *natur* yr wyf fi wedi ymdrechu seilio fy addysgiadau." 285-6, Ar sefyllfa a dyledswydd gweinidog. "Nid ei ddyledswydd yw *cyfranu ac egluro* datguddiad gwyrthiol. Y mae'n adnabod datguddiad trwy ddulliau cysson o weithredu yn unig; trwy gyfraith ac nid yn erbyn cyfraith; *datguddiad yn y byd hwn o sylwedd, a'r byd mwy hwn o ddyn,* nid datguddiad trwy wyrth. * * * Wel, y mae'n rhaid i'r gweinidog hwn dalu sylw i ddyn yn ei nattur fel corph ac yspryd. Crefydd natur,—Wel, mae hi i'r bywyd hwn yn gystal a'r hwn sydd i ddyfod, &c." Vol. II. 26, "Er hynny y mae rhai dynion yn crynu trwy'r dychryn dirfawr hwn, ac yn meddwl nad ydyw yn eithaf diogel i ddilyn y *tystiolaethau hyn sydd wedi eu hysgrifenu ym Mibl mawr Nattur.*" Vol. III., "Gwirionedd fyddai ein pregeth wedi ei dynu oddiwrth yr *Ysgrythyrau henaf ysgrifenodd Duw yna yn Natur, yma mewn dyn;* gweithredoedd o ddyledswydd feunyddiol fyddai ein *sacrament,* prophwydi wedi eu hysprydoli gan Dduw a weinyddent y gair." 122, "Yn wir dyledswydd gweinidog yw dinoethi mewn modd dyladwy yr hawl hon (datguddiad gwyrthiol), mor ddisail, mor ddrygionus, mor wrthun, a chyfeirio at y 'datguddiad parhaus oddiwrth Dduw, yn ffeithiau y byd o sylwedd a dyn.'" 131, "Pa gymmaint o angen duwinyddiaeth o'r fath hyn sydd arnom—*duwinyddiaeth natur,* yn cael ei thynu'n gelfyddydol o'r *byd o sylwedd a dyn,* ffrwyth teimlad crefyddol a *meddwl philosophaidd.*" 209-10, "Y mae deg mil ar ugain o weinidogion yn y wlad (America); beth pe gwnaent oll bregethu crefydd nattur—duwioldeb, moesoldeb, a duwinyddiaeth nattur, philosophyddiaeth y grefydd honno; y fath fyd a gaem yn glau!" B.C. 61, "Odditanom ni y mae'r ddaear, pob gronyn o honi â Duw yn ymdemlu ynddo; uwchlaw i ni y mae'r nefoedd, lle y mae pob seren yn gwreichioni gan Dduwdod; oddifewn i ni y mae nefoedd a daear ymwybodolrwydd dynol, datguddiad mwy mawreddog mewn ffurf o uwch fyth." Dyna'r rhan yna wedi ei brofi. Natur a chydwybod yw unig sail Theism Parker. Ni awn at y

Pummed gosodiad, sef *Mai nattur a dyn yw Hen Destament a Thestament Newydd Parker,* Y mae llawer o brofion o hyn wedi ymddangos eisioes; ychydig ddyfyniadau gan hynny wnant y tro. 121, "Y bydyssawd yw ei ysgrythyr; Natur yw rhyddiaith, a dyn yw prydyddiaith Duw. Y mae'r byd yn gyfrol mwy sanctaidd na'r Bibl, cyn hened â'r greadigaeth. Y fath hanesiaeth, y fath salmau, y fath brophwydoliaeth sydd yno! Y fath ganiadau o gariad i anifail a dyn! nid "Doethineb Solomon," fel yn yr Apocrypha hwn, ond doethineb Duw wedi ei ysgrifenu allan yng Nghanon Mawr y bydyssawd." 132, "Wel, y fath fydd ffurf crefydd yn deilliaw oddiwrth *Theism;* y fath ei duwioldeb a'i mhoesoldeb! Chwi welwch ei bod yn ffurf o grefydd sydd yn eistedd (*fits*) yn dda ar ddyn; y mae'n eistedd yn dda ar yr ochr feidrol—ar ddyn oblegid y mae'n tarddu o'i nattur, ac yn cynyrchioli pob rhan o honi, yn gwneyd cyfiawnder â'r yspryd, pob cynheddf o hono—dealltwriaethol, moesol, serchiadol a chrefyddol. Y mae'n eistedd yn dda ar yr ochr anfeidrol—ar Dduw; oblegid y mae wedi ei thynnu oddiwrth y nattur ddynol ar y dyb fod Duw wedi gwneuthur y nattur ddynol o ddibenion perffaith, o ddefnydd perffaith, ac i bwrpas perffaith, ac fel moddion perffaith at hynny. Megis y mae Duwinyddiaeth 'Grist'nogol' yn proffesu ei bod yn tarddu oddiwrth ddatguddiad geiriol Duw, a

gynyrchiolir gan yr eglwys, fel y dywed y Pabyddion; gan yr ysgrythyrau fel y mae'r Protestaniaid yn dysgu—felly y mae'r *Absolute Religion* yn tarddu oddiwrth *ddatguddiad gwirioneddol Duw a gynwysir yn y bydyssawd; y bydyssawd allanol hyn o sylwedd, y bydyssawd mewnol hyn o ddyn;* ac i'm tyb i nid oes arnom eisiau llafur dysgedig a chydwybodol Lardner, Paley neu Norton, i'n hargyhoeddi fod y bydyssawd yn wireddol ac anffugiol (*genuine and authentic*), a'i fod yn waith Duw heb un llygriad. Yr ydym oll yn gwybod hynny." B.C. 40, "Nid oes genych chwi ddim Ysgrythyr awdurdodol; eich Bibl chwi yw'r bydyssawd, y byd o sylwedd, eich Hen Destament; y byd o ddyn, y Newydd. Y mae datguddiadau yn y ddau bob dydd, oblegid nid yw'r *canon* wedi ei gau, ac ni chaiff byth ei gau. Gydag yspryd catholig crefydd gyffredinol y mae un o'ch *clerks* wedi newydd ddarllen allan o Ysgrythyrau y Chinese, yr Hindwaid, y Persiaid, y Mohammedaniaid, yr Hebreaid, a'r Cristionogion. Y mae un Nattur sylweddol oddiamgylch i ni oll, un Nattur ddynol ynom ni oll, un Nattur Ddwyfol, un Duw Anfeidrol uwchlaw i ni oll, yn ymdemlu ymhob un, a'r un mor agos i'r Budhist a'r Cristion, yr un mor gariadus i bawb. Nid yw ef yn derbyn wyneb sectau mwy na phersonau." 50, "Y mae Duw yn Genesis yn arddangos tyb mabandod dynoliaeth. Y mae dynoliaeth yn ei hoedran yn gofyn tyb wahanol. O amgylch ogylch i ni y mae y byd o sylwedd, y byd erfawr hwn uwchlaw i ni, oddiamgylch i ni ac odditanom; y mae yn cyhoeddi Duw Nattur; blodeuyn yn siarad â blodeuyn, seren yn canu i seren; Duw yr hwn sydd yn preswylio yno, ni thorrodd ei gyfraith erioed. O'n mewn ni y mae Byd o Ymwybodolrwydd, ac fel y mae y drych hwn yn cael ei wneyd yn fwy llachar trwy wareddogaeth, yr wyf yn edrych i lawr ac yn canfod y meddyliddrych natturiol am Dduw, Achos a Rhaglunïaeth Anfeidrol, Tad a Mam i ni oll sy'n bod." 65, "Oherwydd ei fod yn derbyn y da a'r gwir yn y Bibl ni wnaiff syrthio i lawr a derbyn y gau a'r drwg: oblegid nid y safon olaf i appelio atti fydd llyfr wedi ei ysgrifenu âg ysgrifell, fel y mae gweinidog yn ei ddehongli, ond ffeithiau'r bydyssawd, fel y mae y meddwl dynol yn eu dehongli hwynt." 66, "Y mae tystiolaeth y Duw hwn yn Ymwybodolrwydd dyn, a'r Byd o Sylwedd hefyd oddiallan iddo. * * * Felly trwy ei henw i wahaniaethu hon oddiwrth bob tyb arall am Dduw, fi alwaf hon y *Meddyliddrych Philosophaidd* neu *Natturiol* am Dduw. Y mae'n ymddangos i mi yn ffaith wedi ei rhoddi yn nynoliaeth ei hun, gwirionedd hunan-eglur Ymwybodolrwydd ysprydol, rhywbeth yr ydym yn ddarganfod yn y bydyssawd, ac nid rhywbeth yr ydym yn ddyfeisio neu'n gynllunio arni. Felly tra yr wyf yn galw [tybiau] eraill yn *ddychymygion am Dduw*, yr wyf yn galw hon yn *idea am Duw*—yr *idea* philosophaidd, oherwydd ei bod yn cael ei thynu trwy'r *ffordd honno*:—y *Naturiol*, oherwydd ei bod yn cyfatteb i *Nattur*." C. M. 151, "Gwna ni i barchu geiriau sanctaidd a lefarwyd gan ddynion dwyfol gynt, ond i barchu mwy fyth gair Duw a lefarwyd trwy y gydwybod, rheswm, a ffydd, fel y sancteiddiaf oll." Awn yn awr at

Y gosodiad nesaf, sef *Fod gwasanaeth Theistiaeth, yn ol barn Parker, yn fwy perffaith nag un grefydd arall.* Tud. 235, ar Raglunïaeth, "Gwelwch y drwg sydd yn tarddu oddiwrth Gamsyniadau a Chyfeiliornadau mewn Crefydd—oddiwrth Gyfeiliornadau ynghylch Duwioldeb ei rhan feddylgar (*sentimental part*), ynghylch Duwinyddiaeth ei rhan athrawiaethol. *Absolute Religion* yw gwasanaeth yr Anfeidrol Dduw trwy arferiad natturiol, dadblygiad a mwynhâd, pob aelod o'r corph, pob cynheddf o'r yspryd, pob gallu sydd genym dros sylwedd neu ddyn. Dyma wasanaeth sydd yn 'ryddid perffaith.' Dyma'r delfrydig o grefydd (*ideal of religion*); nid oes dim sy'n llai na hyn yn atteb nattur ysprydol dyn a chyfraith natturiol Duw. Y mae pob peth sy'n fyr o hyn yn Gyfeiliornad neu Gamsynied." B.C. 70, "Yna (dan y *Philosophic Idea*) fe fydd ffurf o grefydd addas i arddangos y fath feddyliddrych am Dduw. Bydd yn cydymffurfio â nattur dyn, ei gorph a'i enaid, gan wneyd cyfiawnder â phob rhan, oblegid gan fod Duw wedi gwneyd dyn a'r fath gynheddfau a wnaent weini ei ddiben goreu ef ei hun, felly y mae'n amlwg mai dyledswydd dyn yw arfer y cynheddfau hyn yn eu ffordd natturiol, gyda golwg ar eu diben rheolaidd." Y mae'n rhaid brysio ymlaen.

Y gosodiad nesaf yw hwn—*Fod seintiau a prophwydi a phregethwyr y grefydd newydd yma, Theism neu grefydd nattur, yn well na neb arall,* yn ol barn Parker.

134, Ar Theistiaeth Ymarferol, "Y ffurf o wahaniaeth fydd rhwng saint yr *Absolute Religion* a saint y Grefydd Boblogaidd. Y mae'r sant gwirioneddol yn ddyn sydd yn amcanu cael corph cyfan, a meddwl cyfan, a chydwybod gyfan, a chalon gyfan, ac enaid cyfan; a byw bywyd cyfan, dewr a gwrol, ar waith yng ngalwad feinyddiol *grocer*, neu feiswn, neu ddeddfroddwr, neu saer dodrefn, neu hanesydd, neu wniyddes, neu bregethwr, neu hwsmon, neu frenhin, neu beth bynnag y fo: dyla fydd amcan sant crefydd natur. Ond peth hollol wahanol yw y sant poblogaidd; rhyw hurtyn diffrwyth, eglwys-ormesedig (*church-rid*), llwyd a thenau, dyehiolaeth dynoliaeth sy'n aflonyddu rhodleoedd yr eglwys; oblegid y mae'r sant poblogaidd yn anhydraul (*dyspeptic*) mewn corph, anhydraul mewn meddwl a chydwybod, mewn calon ac enaid; chwi welwch wrth ei wyneb fod ei draul ysprydol yn ddrwg, fod ei ystymog yn wan, ac nad yw ei grefydd ddim yn cyttuno âg ef. Y mae'n rhaid iddo anfon i'r Iorddonen i gyrchu dwfr i fedyddio ei fabau cyn y byddo ei fabau yn ddiogel rhag damnedigaeth uffern: nid yw bedydd âg yspryd Duw ac yspryd dyn ddim yn ddigon. Ond y mae'n rhaid i saint gwirioneddol yr *Absolute Religion* fod yn ddyn rhydd ysprydol, &c." Vol. III. 200, "Gwir y mae gweinidogion uchelwych i'w cael, canlynwyr teilyngaf Iesu o Nazareth, ïe, *arweinyddion* YMHELL O FLAEN *y mab hwnnw o eiddo Duw* yn y 19eg canrif, yn anturio llc na sangodd ef erioed, ag nas gallasai fyned gymaint o amser yn ol—y rhai ydynt yn ymgymeryd â'r holl weithredoedd ardderchog a dynol hyn."

Yr wythfed gosodiad. *Fod ei menywaid yn uwch*. 135—6, "Ymhob ffurf o grefydd a wn i am dani, o lyfr Moses i lyfr Mormon, o Confucius i Calvin, y mae menyw yn cael ei diraddio o flaen dyn. * * * Nid oes gan y tair efengyl gyntaf, y mae'r pedwerydd yn eithriad—nid oes gan ysgrifeniadau Paul a Phedr, llyfr y Datguddiad, fawr parch i fenywaid, fawr parch i briodas. * * * Ond fe rydd yr *Absolute Religion* ei lle priodol i fenyw yn y teulu fel cyfwerth dyn; a phan byddo'r teulu o ddau berson rhydd-ysprydol wedi tyrru ynghyd o gariad at y naill a'r llall, er mwyn hunan-ymosodiad o'r ddwy ochr, a hyfrydweh y naill yn y llall, yna fe fydd genym grefydd deuluaidd y fath na welodd y byd erioed o'r blaen.

Yn nesaf, *Dim ond Theism sy'n gwarafun caethiwed*. 95, "Dim ond crefydd natur sydd yn gwarafun caethiwed, paganiaeth y pagan Seneca a Modestinus. Nid yw Crist'nogion ynghyfiwr Nattur ond Gras. Un o fanteision datguddiad yw hwn—fe all y dynleidr gadw ei gaethwas am byth."

Yn nesaf—*Nid oes na llyfr, na dyn, na phrophwyd, na Christ, ond nattur a chydwybod yn unig yn* AWDURDOD *yngolwg Theistiaeth*. Vol. III. 118, 122, "Nid yw i dynu o'r ffynon hyn yn unig (Cristnogrwydd), y mae i ymotyn pob gwirionedd a all gael gafael ynddo mewn sectau eraill o dduwinyddiaeth, heb ddiystyru cymmeryd ei ddysgu gan elyn. * * * Nid yw i gymmeryd un eglwys yn lle meistr—Hebreaidd, Paganaidd, Mahometanaidd, neu Gristnogol, Protestanaidd neu Gatholig, dim un dyn, na sect, na gair; ond yr oll a all ei gynorthwyo.—Yn wir dyledswydd gweinidog yw dynoethi yr hawl hon (datguddiad gwyrthiol), mor ddisail, mor ddrygionus, mor wrthun, a chyfeirio dynion at y datguddiad parhaus oddiwrth Ddaw yn ffeithiau ei fyd o sylwedd ac o ddyn." Ychwaneger at hyn nad yw Parker byth, ar un achlysur, mor belled ag wyf fi wedi darllen ei waith ef, yn appelio at yr Ysgrythyr, nac yn dyfynu un rhan o honi i brofi un pwngc mwy na'i gilydd: a pha fodd y gallasai tra'n mynwesu y syniadau oedd ganddo am yr Hen Fibl.

Y gosodiad olaf—*Fod pob crefydd arall i ddarfod ond Theism, yr Absolute Religion, neu grefydd nattur*, yn ol barn Parker, *a hon yn unig i lwyddo*. Yr ydym wedi profi hyn i raddau pell eisioes, gan hynny ni roddaf ddyfyniadau ami. 168, 293, "Y mae yr *Absolute Religion* yn gosod yr athrawiaeth arswydus hon i orphwysdra tragywyddol. * * * Os felly y bydd hi byth [sef iddo ef ei hun droi'n fradwr ei grefydd], er hynny fe fydd i'r meddyliddrychau mawrion y rhai a osodais allan, barhau, a byddant un diwrnod yn fflam ynghalon dynolryw. Heddyw! Wel, fy nghyfeillion, y mae tragywyddoldeb o amgylch ogylch i heddyw, ac ni allwn ond camu tuag atto. Gwirionedd y meddwl, y gydwybod, y galon, yr enaid—ewyllys Duw ydyw; ac y mae hollalluawgrwydd Duw wedi ei wystlo i ddwyn yr ewyllys honno i ben. Tragwyddoldeb ydyw hoedl gwirionedd. Fel y mae gallnoedd (*forces*)

sylwedd, o angenrheidrwydd, yn ufyddhau cyfreithiau dysgyrchiad; felly y mae'n rhaid i alluoedd *(forces)* dyn, yn ymwybodol a thrwy ein hewyllys, ufyddhau i ewyllys anfeidrol Duw. Allan o'r *Absolute Religion* yma, yr hon wyf yn ganfod mor aneglur,—a dim ond tywyllwch dechreuad goleufur yn unig yr wyf yn ganfod, a'r hyn wyf yn bregethu yn aneglur—fe gyfyd i fynu un diwrnod ddynion â deall Aristotle a chalon Iesu, ac ardderchawgrwydd bywyd a berthyn i ddyn; fe gyfyd dynion yn eu llawn faint, dynion gwrol, menywaid benywaidd, yn cyrhaedd hawddgarwch eu gradd; fe fydd teuluoedd, gwladwriaethau, cenhedlaethau—ïe, a byd mawr hefyd, lle y bydd ewyllys Duw yn gyfraith, a phlant Duw wedi dyfod i'w hoed, a chymeryd yr etifeddiaeth. Y mae'n rhaid i feddwl Duw fod yn beth dynol, a chrefydd y nattur ddynol ymgnawdoli mewn dynion, teuluoedd, gwladwriaethau, cenhedlaethau, a'r byd." B. C. 66, "Yr wyf yn meddwl mai'r meddylddrych hwn am Dduw fel perffeithrwydd anfeidrol, Gallu, Doethineb, Cyfiawnder, Cariad, Sancteiddrwydd Perffaith yw'r meddwl mwyaf mawreddog a ddaeth erioed i feddwl marwol. Effaith uchelaf gwareiddiad dynol ydyw. Na fydded i un dyn ei hawlio fel ei feddwl gwreiddiol ef ei hun: effaith profiad crefyddol holl ddynolryw ydyw. Yr oedd yn gorwedd yn ddirgel unwaith yn y nattur ddynol, dim ond teimlad crefyddol greddfol yn unig. O'r diwedd y mae'n dyfod yn feddwl disglaer neillduol mewn rhyw feddwl mawr; ac un diwrnod a fydd yn dyb gyffredinol ymhob meddwl, ac a deifl o'r neilldu yr holl dybiau eraill am Dduw,—Hindwaidd, Aifftaidd, Hebreaidd, y Classurol, Cristnogol, Mahomedanaidd, yr un fath yn gymwys ag y mae y wir egwyddor ar seryddiaeth wedi troi pob egwyddor arall heibio."

Wele ni bellach wedi profi, i'm tyb i, yr holl osodiadau uchod, o enau Parker ei hun, ac felly *Theism* yw ei grefydd ef, dyma'r enw y mae ef ei hun wedi ddewis i osod allan ei syniadau crefyddol; y mae pob perffeithrwydd yma, os amherffeithrwydd sydd ymhob man arall: a chan mai *Theism* yw ei enw dewisol ef ei hun, Theist yw yntau, cyn wired a bod Paine yn Ddeist, a minnau yn Undodwr: a chan mai nid o'r Bibl nac oddiwrth Grist chwaith y mae'n derbyn ei athrawiaeth, nac yn appelio attynt i brofi ei gwirionedd, yna nid Cristion; ïe, gan mai nattur a dyn yw ei Fibl ef, ei unig awdurdod i appelio atti, yna Theist yn unig yw yntau, fel ei ganlynwyr yn America; a thyna'r Cristion wedi myned, a'r pwngc wedi ei brofi. Teg fyddai i'w ganlynwyr yn y wlad hon foddloni i'r enw a ddewisodd efe ei hun; onide, Mr. Golygydd?

OWEN EVANS.

YR AWRLAIS YN GALW.

MAE'R awrlais yn galw, fydolion, gwrandewch,
'Does un gair o'i enau ond gwaeddi "Dewch, **dewch**,
'Does un man i orphwys un fynyd i chwi,
Cyfodwch a brysiwch ym mlaen gyda fi.

"Mi'ch gelwais y fynyd y daethoch i'r byd,
Fy nghanlyn a wnaethoch oddiyno i'r cryd;
Tyfasoch i fynu'n fabanod heirdd, llon,
A chawsoch eich meithrin â phêr laeth y fron."

Dic, dac, eto'n galw 'run modd ag o'r bla'n,
"Dewch, dewch, ydyw'r alwad, 'rwy'n myned o'ch bla'n;
Mae rhaid i chwi'm canlyn, 'does fodd yn y byd
I'ch aros un fynyd, 'rwy'n rhedeg o hyd.

"Rhaid gadael mabandod, tra hynod yr hynt,
A gado'r teganau oedd genych chwi gynt;
Pleserau rhagorach, amgenach a gewch
Ym mlodau hardd ienetid, ym mlaen **dewch**, O! **dewch**."

Dic, dac, eto'n galw, dewch, dewch, yn y bla'n,
At gyflawn ddynoliaeth, gwych odiaeth ei grân ;
Ar bethau rhagorach rhowch bellach eich bryd—
Pleserau gwael ienctid ddiflanant i gyd.

BARDD.

Mae canol-ddydd bywyd yn awr wedi d'od,
Dymunwn cael aros yn fwy nag erioed.

AWRLAIS.

Dewch, dewch, ydyw'r alwad, 'dyw'r siarad ond ffôl,
'R y'ch eto'n rhy agos i aros ar ol.

BARDD.

'Rwy'n fwy na thriugain mlwydd cyfain, mi gŵn ;
Mae henaint a methiant yn ormod o bŵn
I'm allu dy ganlyn, 'rwy'n wael iawn fy llûn—
Bydd imi'n drugarog, 'rwy'n gloff o'r ddwy glun.

AWRLAIS.

Pan oeddet yn ieuanc yng nghryfder dy nerth,
Arweiniais di fynu i'r tylau oedd serth ;
'Rwyf 'nawr yn dy anog, tra serchog yw'r swydd,
I dd'od oriwared, cai redeg yn rhwydd.

BARDD.

Ymdrechais dy ganlyn, er gwaeled fy llun,
Nes aeth fy mlynyddau yn *wyth deg ond un ;**
Dymun'swn dy ganlyn, byw byth yn dy gôl,
Ond ffwrdd 'rwyt ti'n myned a'm gadael ar ol.

AWRLAIS.

Ffarwel fy hen gyfaill, canlynaist fi'n faith,
'Rwy'n gorfod dy adael a myned i'm taith ;
Daw angau 'mhen gronyn, fe'th gymer i'w gôl,
Cei orphwys yn dawel nes delwyf yn ol.

Bydd eto'n gysurus, rho'th hyder ar Dduw,
Daw dydd it' gyfodi o'r beddrod i fyw ;
Pryd hyn bydda'i'n galw yn uchel fy nghri,
Cyfodwch, a deuwch ymlaen gyda fi.

Daw bywyd diderfyn o wynfyd a hedd
I dderbyn pob duwiol ar ymyl y bedd ;
Oddiwrth lygredigaeth cant berffaith ryddhad—
Byw byth yn y Nefoedd, a Duw yno'n Dad.

Cyfrifais eich dyddiau, 'ch blynyddau'n ddigoll,
Eich oriau, 'ch mynydau, mi 'rhifais hwynt oll ;
Ond rhifo'ch blynyddau, ni fedr un iaith,
Ar fôr trag'wyddoldeb, maent fyrdd yn rhy faith.

Y diweddar JOHN THOMAS, Awdwr
"Cwyn y Cristion."

* Oedran y Bardd pan y cyfansoddodd y gân hon.

YNGHYLCH PARCHU'R YSGRYTHUR.

Cynnygwyd yr Atteb canlynol i'r ddau Holiad a ganlyn : sef—

Yn gyntaf. Paham y mae dynion yn proffesu'r fath barch i'r Ysgrythur ac etto'n ymwrthod â geiriau'r Ysgrythur mewn pyngciau dadleugar?

Ail. Paham mae eraill a'r fath barch, cib-ddall, i'r Bibl, ac etto'n peidio gwneud dim ag mae'n geisio?

1. Tra hysbys i'r ymofyngar a'r diduedd yw, fod llawer o ddynion ag sydd yn proffesu parch i'r Ysgrythur, yn parchu eu geiriau eu hunain ac eraill yn fwy nâ gair Duw: tybiant fod yr hyn a sefydlwyd gan ein hynafiaid, a elwir union-gred ; yr hyn a lyngcasant hwythau o'u mhebyd i fynu, yn wirionedd diamheuol, er ei fod yn gwbl groes i werthfawr air Duw a rheswm da. Dichon fod rhai wedi eu llenwi â'r fath yspryd mawr hunanol, na's mynnant roi heibio eu hen ymarferiadau coel-grefyddol er cael eu hargyhoeddi o'u hanaddasrwydd. Mae'n bossibl fod eraill sydd yn gweled mai iaith yr Ysgrythur yw'r goreu, etto yn cadw'r drefn arferol, er yn anysgrythurol, pan byddont yn dadleu, rhag ofn cael eu barnu yn gyfeiliornus gan eu cyfeillion : gweddus fyddai i'r cyfryw ystyried gydâ'r apostol, mai bychan yw barn dyn ; hefyd, y mae achos i ofni fod cymmaint o sêl gibddall wedi perchennogi rhai dros eu pwngc eu hun, fel y maent yn arfer estyn eu breichiau heibio'r Ysgrythur i gyrhaedd eu rhesymau eu hunain ; gan geisio eu dal i fynu, heb iawn ystyried fod yn anweddus i gadw un peth ar ei draed, ond a gynhalier trwy air Duw.

2. Mae'n rhy debygol fod llawer o ddynion yn dueddol i barchu beth bynnag fyddo yn cael parch gan y cyffredin, heb un rheswm arall am eu barn ; mae'n bossibl y parchai y cyfryw'r Alcoran, pe baent yn byw ymysg y bobl sydd yn ei barchu. Hefyd, amlwg yw, fod gwahaniaeth rhwng parch mewn gair yn unig, a pharch o'r galon i'r Bibl. Os bydd pwerau'r meddwl yn parchu gair Duw, rhaid ufuddhau iddo. Heblaw hynny, mae'n rhy eglur fod bywyd llawer o ddysgawdwyr y gair yn gwbl anghyttunol â'r gair. Oddiyma fe welir, mai'r achos fod rhai yn proffesu cymmaint o barch i'r gair, ac heb wneud dim y mae ef yn ei geisio, yw anwybodaeth a rhagrith.

Cylchgrawn, 1793.

HYNAFIAETHAU CYMREIG.

Tri Aderyn yn Ymddiddan: Yr Eryr, y Golomen, a'r Gigfran, neu Arwydd i annerch y Cymru, yn y flwyddyn 666.

Yn yr oesoedd gynt, pan siaradai'r Creaduriaid â'u gilydd, y clybu Morgan Llwyd o Wynedd, y tri aderyn uchod yn ymddiddan fel hyn :—

Eryr. O ba le'r wyt ti (y Gigfran ddu) yn ehedeg?

Cigfran. O dramwy'r ddaear ac o amgylchu'r gweir-gloddiau i ennill fy mywyd.

Eryr. Onid tydi yw'r aderyn a ddanfonodd Noah allan o'i long, na ddaeth yn ôl fyth atto drachefn?

Cigfran. Myfi yn wir yw'r aderyn hwnnw, ac y mae arnaf dy ofn di brenin yr adar.

Eryr. Pa'm na ddoit ti yn ôl at yr hwn a'th ddanfonodd?

Cigfran. Am fod yn well gennyf fwytta cyrph y meirwon na fod dan law Noah a'i feibion.

Eryr. Di wyddost (O Gigfran) i'r Golomen ddychwelyd yn ôl, a'i deilen werdd yn ei phig.

Cigfran. Beth am hynny? Nid yw hi ond aderyn gwan ymysg ehediaid y ffurfafen: 'rwyf fy hun yn gryfach ac yn gyfrwysach o lawer.

Eryr. Ond yr wyt ti yn bwytta cig meirwon, ac yn ymborthi ar y budreddi annaturiol.

Cigfran. Felly'r wyt tithau, O Eryr, weithiau, er dy fod yn falch, ac megis yn frenin.

Eryr. Gwir yw hynny; ond galwn am y Golomen, i wrando beth a ddywaid hi am dani ei hun, ac am danom ninnau.

Cigfran. Ni ddaw hi i'n cwmni ni, rhag ofn; ac ni feiddia hi ddywedyd ei meddwl lle bwyf fi.

Eryr. Nagê, rhaid wrth gyngor y Golomen. Gwrandawn ar bawb, a dewiswn y goreu. Pa le yr wyt ti (O Golomen) yn lloches y grisiau? Gad i ni glywed dy lais ditheu.

Colomen. Os ceir cennad (ac onid ê) mae ewyllys i ddangos dirgelwch y dwfr diluw, a'r hen fyd, a'r newydd. Da gennyf ddwyn y ddeilen lâs, a newydd da i'r rhai a achubir. Ac mi ddylwn gael cennad i ddywedyd y gwir yn llonydd am danaf fy hun, ac am bob aderyn arall.

Eryr. Dos rhagot. Ni rwystra neb di: di gei gennad i fyned ymlaen.

Colomen. Mae gennyf etto lawer ynghylch Ysgrythyrau ac eneidiau dynion, ynghylch teyrnasoedd a rhyfeloedd, Arch y Dystiolaeth, a chodiad y Seren Ddydd, Haul y Cyfiawnder, a dydd y farn, diwedd y byd hwn, a dechreu'r byd arall, naturiaeth Duw, a natur dyn, nef ac uffern, a llawer o fatterion eraill. Ond mae'r Gigfran yn anhywaith, ni cheir son am ddim daioni o'i bodd hi.

Eryr. Ond y mae Noah wedi peri i mi'r Eryr lonyddu'r Gigfran, a chadw heddwch ymysg adar: ac fel yr ydym ni'r Eryrod yn gryfach na'r Cigfrain, felly mae'r da yn gryfach nâ'r drwg.

Colomen. Beth a fyn yr Eryr ei wybod? Ac am ba newydd y mae'n meddwl ymofyn?

Eryr. Mi fynnwn wybod gennyt pa beth yw dirgelwch Arch Noah? A chan fod y dychryn, a'r diluw, a'r rhyfel, a'r rhwystrau, a'r gwae, a'r gwagedd, a'r camwedd wedi parhau cyd ar y ddaear, Pa bryd y ceir diwedd?

Colomen. Cyfrinach yw Arch Noah i'w ddangos i rai, canys nid yw'r adar drwg, nac yn deilwng, nac yn ewyllysgar i'w glywed: ond am y ddeilen werdd, a'r newydd da, fe baid y dwfr diluw pan bregether yr Efengyl dragywyddol drwy'r holl ddaear.

Eryr. Ond beth, meddi di, yw'r ddeilen lâs, a'r Efengyl dragywyddol?

Colomen. Arwydd fod digofaint wedi myned heibio, a'r chwe mil yn passio, a'r Sabbath mawr ar fynydd Ararat yn agos.

Eryr. A geir heddwch drwy'r byd, a goleuni yn lle'r tymhestloedd, a'r tywyllwch gwyntog yma?

Colomen. Ceir dros lawer o flynyddoedd.

Eryr. Pa fodd y profi di hynny? Oni's gwnei ni byddaf foddlon i ti, mwy nag i'r Gigfran, neu aderyn arall.

Colomen. Gwrando, o Eryr, a dyall; mi ddywedaf y gwir. Mewn chwe' diwrnod y gwnaed y byd, ac ar y seithfed y gorphwyswyd, medd Moesen; ac mae un dydd gyda Phreswylwr Tragywyddoldeb fal mil o flynyddoedd, a

mil o flynyddoedd fel un dydd, medd Pedr: dyall hyn meddaf, Eryr, canys ychydig a'i cenfydd nes iddo ddyfod.

Cigfran. Crawcc. Beth a wnae'r Golomen ffol yma yn siarad, ni ŵyr hi beth, o'th flaen di, O Eryr boneddigaidd?

Eryr. Heddwch! Hi wnaeth wasanaeth i'r byd yn yr Arch. Rhaid i bob aderyn arfer ei lais.

Colomen. Nid da gan y Gigfran monof fi, er na wnaethum erioed niweid iddi.

Eryr. Felly nid da gan y drwg y da un amser, ond ei ymlid y mae o goed i gastell.

Cigfran. Ai aderyn drwg y gelwi di fi? Ai hawdd yw i mi gael fy nghyfrif yn ddrwg.

Eryr. Fe a'th anwyd yn uffern, ac yno y mynni drigo. Ond ni fynnit mo'th alw wrth enw dy wlad, na'th farnu yn ôl dy waith.

Cigfran. Ni fynna'i o'm bodd mo'm galw felly.

Eryr. Gwel, ac edrych ar y Golomen yma, nid gwaeth ganthi hi pa fodd y gelwir hi, canys mwyn ac arafaidd yw.

Cigfran. Nid Colomen wyf fi, ond Cigfran. Ac fe ordeiniwyd i bob aderyn ei liw a'i lûn, a'i lais ei hun; ac os gofynni di i mi Pa'm? Minnau a ofynnaf i tithau O Eryr! Pa'm nad wyt cyn lleied a'r Dryw bach, neu'r Wenfol?

Eryr. Ond gwrando, Gigfran, pa newydd yr wyt ti yn ei ddwyn ar ôl dy holl ehedeg dros y gwledydd.

Cigfran. 'Rwi'n gweled mai gwych yw bod yn gyfrwys pa le bynnag y bwyf.

Colomen. Nid yw dy gyfrwystra di ond ffolineb, canys ni fedri, ac ni fynni ddyfod yn ol at Noah.

Cigfran. Gwel O Eryr, frenin, fel y mae'r Golomen o'th flaen di yn fy marnu i.

Colomen. Nid wyf ond dywedyd y gwir am danat ti; ac fe fyn y gwir o'r diwedd ei le.

Eryr. Ond dangos di, O aderyn du, i'th gyfiawnhau dy hun, Pa gyfrwystra sydd ynot ti mwy nag mewn aderyn arall?

Cigfran. Mi fedraf droi gyda phob gwynt, ac arogli fy mwyd o bell, a gochelyd y saethyddion, ni ddisgynnaf yn agos i neb, heb fy llygad yn fy mhen. Pa opiniwn bynnag a fo gan yr uchelwr, mi fedra'i lyngcu, am y caffwyf lonyddwch yn fy nŷth.

Eryr. Oni feder y Golomen hynny hefyd?

Ciyfran. Crawcc. Mae rhai o'r proffeswyr newyddion yma mor wancus a minnau, ac mor gyfrwys am y byd a'r Gigfran dduaf. Ond os troi'r ddalen a darllain y tu arall i'r gwir, mae llawer o'r dynion newyddion yma heb ganddynt bris am y byd nac am danynt eu hunain, nac am ddim, am y caffont fod gyda Noah yn yr Arch, mewn cymdeithas yn yspryd yr ail Adda: ac ni adwaen i yr hun o honom ni y Cigfrain o'r meddwl hwnnw.

Colomen. Gwir y mae'r Gigfran yn ei ddywedyd yn hyn; canys mae llawer a lliw Colomenod arnynt, a naturiaeth y Gigfran ormod ynddynt.

Eryr. Ond pa fath rai y mynnit ti i'th ddynion di fod?

Colomen. Nid fel y genhedlaeth sydd yn melldithio'r tad, ac heb fendithio ei mam. Diar. xxx. 11, 12, &c., neu yn lân yn ei golwg ei hun, ac yn amherffaith yngolwg Dduw. Ond mi fynnaf i'm disgyblion i fod fel y Morgrug, Diar. xxx. 24, 25, &c., yn darparu eu lluniaeth cyn ei bod yn rhy hwyr, ac fel ewningod, yn adeiladu yn y graig, ac fel locustiaid yn cytuno i

ymdrech ynghyd, ac fel y prif coppyn gwael yn dal ei afael ar air y bywyd, fel y gallont aros ymhlâs y brenin nefol. A'r rhai hyn a wneir mor ddiddig na ellir eu cyffroi, mor isel na all dim eu balchio, mor hyfryd na all dim eu tristau, mor sobr na all dim eu ffoli, mor ddiflin na all dim eu cloffi, mor bur na all dim eu halogi, mor rhagorol na all neb fyned tuhwnt iddynt, mor ddwys na all dim gloddio danynt, mor sylfaenedig na ellir eu siglo, mor blentynaidd na ellir eu cyfrwyso, mor agored na ellir eu cau, mor weddaidd na chaiff neb gam air ganddynt, mor isel na ddichon un gwynt mo'u hysgwyd, mor uchel na all un meddwl naturiol mo'u cyrhaedd, mor gyfrwys a'r seirph, ac mor wirion a'r colomenod. Ac ymhellach, mae rhai o honynt a allant ddywedyd (drwy râs) eu bod hwy yn marw i'r byd yma, ac er hynny yn byw byth, yn llai na dim ynddynt eu hunain ac yn fwy na'r byd yn eu gwreiddyn. Ar y dibyn beunydd, ac er hynny yn sefyll, heb wybod dim ynddynt eu hunain ac yn dyall pob peth yn Nuw, yn llawn tristwch, ond yn mwynhau canhwyll llawenydd di-gymmar, yn ymdaflu mewn tonnau, ond yn sicr wrth yr angor, yn gwrando ar bawb heb gredu un-dyn, ond yn chwilio pob peth, yn edrych ar y canghennau ond yn byw yn y gwreiddyn, yn rhodio yn heol y byd yn yr enaid, ond yn ymgadw ymhlâs Duw yn yr yspryd, yn llafurio yn wastadol, ac er hynny yn gorphwys yn ddistaw ar y ddaear, ac yn dystion i'r gwir, yn llawn o feddyliau ac megys heb feddwl am ddim, yn cael câs gan bob cnawd a chariad gan bob yspryd da, yn ymdrech â'r holl gythreuliaid, ac yn ymgaredigo âg angylion Duw, yn clywed mwy o lais y byd nag a garant, a llai o leferydd y Tad nag a fynnent, yn chwilio gwaelod crefydd ac yn ymddangos ar y wyneb, yn ddiragrith mewn daioni, yn ymbriodi â doethineb Duw, ond etto heb ei mwynhau yn hollawl, &c.

[Ar ddiwedd y dernyn uchod, (yr hwn a ymd langosodd yn y *Cylchgrawn*, 1793, tud. 47), ychwanegir, "Nid yw hyn ond ychydig, i osod allan nattur y gwaith, a doniau yr awdwr; 'sgrifennodd amryw lyfrau heblaw hwn ('Dirgelwch. &c.'). Mae ei holl waith yn cynnwys pethau dwys a dwfn, anhawdd i'r dwl eu dyall, etto yn llawn defnyddiau da i ddysgu'r doeth yn ffordd cyfiawnder."—Yr oedd Morgan Llwyd yn weinidog yr eglwys fawr Wrexham, lle y bu farw yn 1659, yn 40 mlwydd oed. Mawr y carem ddyfod o hyd i'r hen lyfr cywraint.—Gol.]

DIARHEBION ARABAIDD.

1. Corph marw ym mhreswylfeydd y byw ydyw'r gormeswr, ond y mae gan y cymmwynaswr enaid byw yn nhrigfanau'r meirw.

2. Cyffelyb yw tywysog heb gyfiawnder i afon heb ddwfr.

3. Megys nad yw'r corph claf ddim yn derbyn un budd oddiwrth fwyd, felly nid yw'r meddwl gwag ddim yn derbyn lles oddiwrth gynghor.

4. Gwrandewch os mynwch ddysgu, byddwch yn ddistaw os mynwch fod yn ddiogel.

5. Holwch am eich cymmydog cyn dechreu adeiladu, ac am eich cydymdeithydd cyn myned i'daith.

6. Y cyntaf o ddoethineb yw ofn Duw.

7. Celain yw'r byd a chŵn yw ei ddilynwyr ef.

8. Y mae ffug-ymddangosiadau'r gwr balch yn gwneuthur ei ddymuniadau drwg yn genfigenus; ond pe gallai ei gyfaill weled ei galon, cawsai achos i wylo.

9. Y sawl sy ganddo iechyd, dylai obeithio; a'r sawl sy ganddo obaith, dylai fod yn ddedwydd.

10. Tlodi heb ddyled, anymddibyniaeth yw.

11. Y ffol, gelyn yw iddo ei hunan; pa fodd y gall efe lesoli eraill?

12. Hir brofiad a ddwg fawr arabedd.

13. Y dyn nas gall, na gwasanaethu ei gyfeillion, na niweidio ei elynion, sydd adnabyddiaeth di-les.

14. Y mae'r diogyn yn dyfod yn estron i Dduw ac yn gyfaill i dlodi.

15. Wrth bob chwech nôd yr adwaenir y ffôl:—digter heb achos, llafar heb fudd, newid heb gymmhellai, ymofyniad heb wrthrych, hyderu mewn dieithryn, a diffyg gallu i wahaniaethu rhwng cyfaill a gelyn.

16. Diferyn at ddiferyn sydd yn gwneuthur i fyny yr eigion.

GWRTHWYNEBU DRWG.

"A ddyco'r wy a ddwg a fo mwy."—DIAREB GYMREIG.

Y MAE gan yr Arabiaid chwedl am felinydd, yr hwn a ddychrynwyd un diwrnod trwy i gamel wthio ei drwyn i mewn trwy'r ffenestr lle'r oedd efe yn digwydd bod yn cysgu. "Y mae yn oer iawn y tu allan," meddai'r camel, "ac nid wyf fi'n 'mofyn dim ond cael fy nhrwyn i mewn." Caniataawyd i'r trwyn i ddod i mewn, wedi hyny y gwddf, ac yn ddiweddaf oll yr holl gorph. O dipyn i beth daeth y melinydd i deimlo yn flin iawn o herwydd y cydymaith a gafodd, gan nad oedd yr ystafell ddim yn ddigon mawr i ddau. "Os ydych yn teimlo rhyw anghyfleusdra," meddai'r camel, "gellwch ymadael, am danaf fi, arosaf lle'r wyf." Y mae gwers y chwedl hon yn perthyn i bawb. Pan delo profedigaeth, y mae'n rhaid i ni ofalu peidio rhoddi ein hunain i fyny iddo. Y mae'n rhaid i ni i ofalu peidio gadael cymmaint a'i drwyn ef i ddod i mewn. Y mae'n rhaid i ni i droi ymaith oddiwrth bob peth sydd yn debyg i bechod. Yr hwn a rydd ei hunan i fyny yn y gradd lleiaf i brofedigaeth a gaiff yn fuan ei lwyr orchfygu, a bydd cyflwr olaf y gwr hwnw yn waeth na'r cyntaf.

SYLWI AR NATUR.

DARFU i James Watt orchfygu'r anhawsdra o wneyd i bibellau i gario dwfr o dan yr afon Clyde trwy sylwi ar wneuthuriad cragen y *lobster*. Darfu i Brunel wrth gynllunio'r *Thames Tunnel* i gymeryd gwers oddiwrth ddull yr abwydyn yn tyllu. Cafodd defnydd cyntaf y rhwyf ei chopio oddiwrth symudiad aden aderyn yn hedfan trwy'r awyr. Dysgwyd gwneyd olwyn trwy sylwi ar symudiad troellog y ciryll pan yn troi o gylch yn yr aer. Ac nid oedd gan yr aradwr well patrwn pa fodd i lafurio'r ddaear na'r un a gynygid iddo gan drwyn y mochyn yn twrio'r ddaear.

W. E. GLADSTONE.

"Y MAE gormod o ddynion yn dywedyd wrthynt eu hunain, 'rhaid i Dduw fy achub wedi fy marw. Wrth gwrs, nis gall neb arall, ond tra'r wyf yn fyw, y mae'n rhaid i mi i achub fy hun. Rhaid i Dduw fy achub rhag uffern: ond rhaid i mi achub fy hunan rhag tlodi, rhag trallod, rhag yr hyn y dichon y byd ei ddywedyd am danaf, neu ei wneuthur i mi, os bydd i mi ei dramgwyddo.' Ac felly y mae yn ymddangos fod a fyno cadwedigaeth yn gwbl a'r byd nesaf, a dim a'r byd hwn; ac felly y mae dynion yn colli'r grediniaeth yn llwyr fod Duw yn achubydd, yn amddiffynydd, yn arweinydd, yn gyfaill i ni yn awr, yma, yn y byd hwn, ac nid ydynt yn credu yn drwyadl y gallant fyned yn y blaen yn well yn y byd hwn, trwy adnabod Duw ac Iesu Grist, ac felly y maent yn myned at y gwaith o helpio eu hunain, trwy ddichell, &c."

Gohebiaethau.

CYFARFOD YSGOL SABBOTHOL CAPEL-Y-GROES DYDD NADOLIG.

Yr oeddem yn meddwl cael yr hyfrydwch o gael ein llywyddu gan ein teilwng weinidog, ond oherwydd y newydd galarus o farwolaeth y Parch. John Jones, Aberdar, yr oedd ef yn absenol. Cawsom gyshorthwy caredig gan y Parch. Wm. Rees, Rhydygwin, a Mr. John Davies, myfyriwr. Dechreuwyd y cyfarfod trwy adrodd y 17eg bennod o'r efengyl yn ol Ioan, gan Mary Jenkins, Pantmelyn, a Mary Evans, Nantyffin; canodd côr y capel; gweddiodd Mr. John Davies; tôn gan John Williams, Cwrtybrodyr, a'i gyfeillion; Sara Davies, Tynywaun, ac Ann Jones, Felinban, Addysg Dda; Mary Davies, Caecerig, y 139 Salm; Rachel Williams, Waungron, geneth 8 mlwydd oed, Gwawr boreuddydd y gwynfyd, dernyn rhagorol iawn; Mary Jenkins, Pantmelyn, Y Caethwas; Mary Evans, Nantyffin, Teimlad y Bardd; John Jones, Felinfach, Ystrad, Penillion o'i waith ei hun ar y dydd Nadolig; tôn gan David Jenkins, Blaenwaun, a'i gyfeillion; John a Sara Evans, Nantyffin, brawd a chwaer ifange iawn, Beth sydd dda; Ann Jones, Hendryd, ac Elisabeth Evans, Dadl yr ysgol Sabbothol mewn rhyddiaith:—dernyn rhagorol, adroddiad da iawn; Evan Evans, Nantyffin, Cydwybod lân; Jane Hughes, Tynygwndwn, Tynerwch mam; Evan Jenkins, Blaenywaun, Bro marwolaeth; Tôn gan John Williams, Evan Jenkins, ac Elisabeth Harries; Englyn byr-fyfyr gan William Davies, Silian; Sara Williams, Cwrtybrodyr, a Jane Evans, Pantyffynon, Boddlonrwydd; Elisabeth Evans, Hendyd, Penillion ar yr angenrheidrwydd o gydymffurfiad cymdeithasol; Evan Evans, Nantyffin, Hyffordda blentyn; Elisabeth Evans eto, Yr ardd; Evan Jenkins eto, Siaradwch y ddwy; Anthem gan gôr y capel; David Jones, ac Elisabeth Jones, Alltgoch, Y bardd a'r awrlais; Sara Davies eto, Ymwrol am wlad well; John a Sara Evans eto, Crist a'r gwr ieuanc; John Jenkins, Blaengwaun, Codiad yr haul; Jane Evans eto ar y Gwanwyn; Englyn eto gan William Davies; Tôn gan David Jones, Elisabeth Jones, Elisabeth Harries, a John Jenkins; Evan Davies, Hendŷ, Cynghor i blant i fod yn ufydd i'w rhieni; Martha Howells, Esgerenglis, Beddrod fy mam; Evan Davies eto, Rhagoriaeth rhwng ieuenctyd a'r henaint; Sara Davies eto, Y ddau deulu; Rachel Evans, Felinfach, I'r edifeiriol; Sara a Mary Evans, Felinfach, (efilliaid) oddeutu wyth mlwydd oed, Y drwg o adrodd ofer chwedlau ynghlyw plant; Evan Davies eto, Penillion ar gariad; Englyn gan William Davies eto: Tôn gan David Jenkins, John Jenkins, ei fab Evan eto, Elisabeth Harries, Evan Davies eto, Penillion i'r blodau; Rachel Evans eto, Rhagoriaeth y grefydd Gristnogol ar y grefydd baganaidd; Anerchiad byr a chynwysfawr gan y Parch. Thomas Griffiths, Cribin, Ar yr angenrheidrwydd o gydweithrediad gan y gwahanol gynlleidfaoedd, er dwyn yn y blaen yr achos daionus o addysgu y genedl ieuanc yn ffyrdd rhinwedd ac egwyddorion y grefydd Gristnogol. Cawsom anerchiad rhagorol gan y cyfaill Mr. John Jones, Hendryd, Ar fuddioldeb yr Ysgol Sabbothol. Canodd y côr; yna terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. Thomas Griffiths.

Caeglas, Ion. 20. D. Daniel.

GWELLIANT GWALL.

Mr. Gol.—A fyddwch chwi mor garedig a gwella'r gwall canlynol a ddigwyddodd yn rhyw fodd yn yr Ymofynydd am Ionawr diweddaf. Teg yw dywedyd mai fy ngwall i yw, ac nid eiddo'r wasg, gan fod yr un gwall yn yr *extracts* yn Saesonaeg a wnaethum o waith Parker. Ar tudalen 19 gadewais, yn hollol anfwriadol, y geiriau—"Ond Duw yn unig," allan. Dylai y dyfyniad fod fel y canlyn. *Works by Miss Cobbe.* Cyf. I., tudalen 317—18, "Nid yw hi (*spiritualism*) yn plygu i un eulun o goed neu gnawd, o aur neu femrwn neu wynt wedi ei siarad; na Mammon na'r eglwys, na'r Bibl, nac hyd yn oed Iesu, ond *Duw yn unig*, &c. Yr wyf yn ddyledus i garedigrwydd cyfaill am nodi y gwall uchod, a theimlaf yn ddiolchgar iddo am hynny, ac am unrhyw welliant o'r fath a noda efe, neu ryw un arall rhagllaw, gan nad oes dim ymhellach oddiwrth fy amcan na gwneud cam-ddyfyniadau o'm hawdwr.

Cefn, Ion. 25. O. Evans.

Kauesion Cartrefol a Thramor.

Y Llys a'r Wladwriaeth.—Mae y newyddion ynghylch iechyd Tywysoges Cymru a'i Mab, yn parhau i fod yn dra ffafriol. Hawdd yw gweled fod genedigaeth plentyn ag sydd ar yr un pryd yn fab hynaf i Etifedd coron Lloegr, ac yn ŵyr i Frenin Denmarc, yn amgylchiad o gryn bwys gyda golwg ar sefyllfa anhappus pethau yn bresennol ar y Cyfandir, ac yn enwedig y berthynas rhwng Denmarc a Germany, ag sydd mor fygythiol a llawn o berygl. Y mae sisial wedi bod (heb sail gobeithiwn) fod peth croesdyniad ar y pwnc wedi ei amlygu yn y Llŷs. Y mae yn adnabyddus fod y Frenhines yn cael ei dylanwadu yn ei golygiadau a'i chydymdeimlad, gan ei Brawd-yn-nghyfraith, Duc Saxe Coburg, yr hwn sydd yn digwydd bod gyda'r mwyaf sêlog a dylanwadol o'r Tywysogion Germanaidd ag sydd newydd ddangos cymaint o fyrbwylldra a phenboethni yn yr ymosodiad ar freiniau Brenin Denmarc. Ac nid yw ond naturiol iddi hefyd deimlo yn fywiog o blaid gwlad fabwysiedig ei Merch hynaf, Prwssia. O'r tu arall, y mae yr un mor naturiol fod Tywysog Cymru yn coleddu teimladau nad allant lai na bod yn gryf dros annibyniaeth ei Dad-yn-nghyfraith, Christian IX., a theilu brenhinol Denmarc. Ac os ydyw yn gyfyng ar y Llŷs, yn y matter prysur a pheryglus yma, rhaid ei bod yn fwy cyfyng fyth ar yr Ysgrifenydd Tramor a'r Weinyddiaeth. Mae Arglwydd Russell wedi bod yn ymresymu (ac ymresymu yn gryf) â'r ddwy blaid, a cheisio dangos fod bai mawr o bob ochr; ond heb lwyddo i berswadio y naill neu'r llall o hyny. Barna rhai a ystyrir yn ddysgedig mewn pethau o'r fath y buasai yn ddoethach, dan yr amgylchiad, i'r Ysgrifenydd Tramor ymddybenu llai ar ei resymmeg, a gwneud defnydd yn hytrach o'r hyn sydd yn rhai parthau o America yn myned dan yr enw *soft sawder*. Pa fodd bynag, a channad beth fydd y pendraw, y mae cymaint o ymyraeth ag sydd eisioes wedi cymmeryd lle, yn debyg o gostio yn drwm, mewn amryw ffyrdd, i ryw rai.

Y Senedd a'r Weinyddiaeth.—Bydd y Senedd Ymherodrol, deallwn, i ymgyfarfod dydd Iau, y 4ydd o Chwefror. Bydd ein perthynasau tramor yn ddiau i gael eu dwyn ymlaen gyda'r pethau blaenaf a'r pwysicaf hefyd ar hyn o bryd. Ar adeg mor bwysig, pan y mae yr heddwch rhyngom a'n cynghreiriaid, a heddwch Ewrop yn gyffredinol mewn perygl o'r mwyaf, y mae galwad uchel ar ein Seneddwyr i adael heibio eu hamcanion pleidgarol ac i ymroddi yn unfrydol i ddwys ystyried sefyllfa a pherthynasau presennol y wlad, ac i ymgynghori parth y drefn a'r moddion cymhwys er sicrhau heddwch, os yn bosibl, ac amddiffyn cyfiawnder, ynghyd â diogelwch a llwyddiant ein gwlad. Gellir disgwyl y bydd i'r Weinyddiaeth bresennol i roddi cyfrif, ac adroddiad llawn (mor bell ag y caniateir gan sefyllfa pethau) o'r hyn a wnaethpwyd ganddynt ac a gynnygiant i'w wneud yn y matter. Mae matterion gwladwriaethol Lloegr, gyda golwg ar gyllid a masnach y wlad, wedi myned ymlaen yn bur hwylus a llwyddiannus, ac oddieithr i ryfel dòri allan, mae pob argoelion y bydd i barhau felly ac yn gynnyddol. Beth bynag o newydd sydd yn mwriad Mr. Gladstone neu y Weinyddiaeth i'w gynnyg, y mae hyd yma wedi ei gadw iddynt eu hunain. Teimlant, o bosibl, fod eu gafael ar yr awdurdod swyddol yn bur ansicr. Ac fe ymddengys fod y blaid wrthwynebol (y *Tories*) yn disgwyl ac yn ymbaratoi i ddyfod yn fuan i gymmeryd eu lle. Rhoddodd gohebydd yn y *Morning Herald* yn ddiweddar adroddiad manwl o'r cyfnewidiadau etholiadol a gymmerasant le yn ystod y flwyddyn 1863. Yn ol yr "awdurdod hôn" y mae y blaid Ryddfrydol yn y Senedd mewn sefyllfa isel: ranedig a diofal. Dywed mai ennillion y *Tories* yn ystod y flwyddyn oedd *pump*, ac nad oedd eu colledion ond *tri*. Yn y flwyddyn 1862, ennillodd y *Tories* chwech o eisteddleoedd, ac ni chollasant un. Mai nifer presennol yr aelodau Toryaidd ydyw 325; nifer y Rhyddfrydwyr ddim ond 310. Casgla oddiwrth y ffeithiau hyn y bydd i'r Rhyddfrydwyr gael eu gyru allan pan ddel dydd y cyfrif, yr hyn a fydd yn *fuan iawn*, gan fwyrif mwy hyd yn oed na hwn." Ychydig amser a ddengys.

Adfywiad Masnach.—Da genym weled ei bod wedi gwawrio bellach ar y dosparth gweithgar yn gyffredinol, a'r gweithiau glo a haiarn yn enwedig, yr hyn a rydd i ni beth gobaith am fwy o gefnogaeth i'r Ymofynydd, fel i gyhoeddiadau eraill o'r fath. Mae llwyddiant ar fasnach gwladol yn beth ag sy'n galw am ddiolchgarwch cyffredinol, ac am ddoethineb i iawn ddefnyddio'r fendith. Yr wythnos gyntaf o Ionawr cyhoeddwyd Adroddiad Bwrdd Masnach am y mis o'r blaen a'r un mis ar ddeg oedd yn diweddu ar y 30ain o Dachwedd. Wrth ei gymharu â'r adroddiad am y tymmor cyferbyniol yn 1862, yr ydym yn cael fod masnach y wlad mewn sefyllfa hynod o lwyddiannus. Gwerth y nwyddau a allforiasom yn mis Tachwedd diweddaf oedd 12,758,323p., yn erbyn 9,761,510p., yn yr un mis yn 1862; ac felly nid ydyw y cynnydd yn ddim llai na 2,996,813p., neu 30 y cant. Yn yr un mis ar ddeg cyntaf yn 1863, yr oedd gwerth ein hallforion yn cyrhaedd i 132,135,368p., tra nad oeddynt ond gwerth 113,280,779p., yn y tymmor cyferbyniol yn 1862; ac felly y mae y cynnydd yn 18,854,589p., neu 16 y cant. Y mae pob lle i gredu na bydd cyfanswm gwerth yr allforion am y flwyddyn yn ddim llai na 150 miliwn o bunnau, ac y bydd y dadforion yn werth oddeutu 177 miliwn o bunnau.

Y Cyfandir.—*Ffraingc.*—Yn yr etholiadau diweddar, er gwaethaf y rhwystrau a achosid gan bleidwyr sêlog y Weinyddiaeth Ymherodrol, dewiswyd yn Paris a rhai o brif ddinasoedd y tâleithiau, dros 60 o ddynion i fod yn aelodau y *Corps Legislatif*, o'r rhai nad oeddent mewn un modd yn celu eu gwrthwynebiad i drefn a mesurau llywodraeth yr Ymherawdwr. Dynion ydynt gan fwyaf ag sydd yn bur adnabyddus i'r cyhoedd, fel awdwyr neu ddadleuwyr craffus a thalentog, ac areithwyr campus. Braidd y gellir disgwyl y bydd eu gwrthwynebiad i gael nemawr o effaith gweledig ar fesurau y llywodraeth yn ngwyneb y mwyrif dirfawr o bleidwyr sêlog sydd o ochr y weinyddiaeth. Pa fodd bynag mae yr areithiau a draddodir gan un neu'r llall o honynt, ar y prif bynciau gwleidyddol, yn cael eu darllen yn awyddus trwy yr oll o Ffraingc, ac mewn teyrnasoedd eraill.

Denmarc a Germany.—O achos prinder gofod gorfu arnom adael allan o'r rhifyn diweddaf lawer o'r hyn oeddid wedi ei ddarparu ar achos Schleswig—Holstein. Yr oedd milwyr Germany, y pryd hyny, wedi cymmeryd meddiant o Holstein, a'r cynrychiolwyr Germanaidd yn dechreu son am gymmeryd meddiant o Schleswig. Cynnygiwyd penderfyniad i'r pwrpas hwnw yn y *Diet*, neu'r Gynghorfa Genhedlaethol. Ewyllysiai Awstria a Prwssia i'r *Diet* feddiannu Schleswig, os na byddai i lywodraeth Denmarc i alw cyfansoddiad Tachwedd yn ol. Yr oedd y cyfansoddiad tramgwyddus hwnw, cofier, yn sicrhau i drigolion Schleswig yr un rhyddid a breiniau gwladol ag a feddiannid gan ddeiliaid Denmarc briodol. Dyma ydoedd y trosedd mawr. Pe buasai llywodraeth Christian IX. yn Schleswig yn un ddespotaidd ni chynnygiasid un ymyraeth. Modd bynnag, wedi i'r ddau allu mawr Germanaidd, Awstria a Prwssia, i agor eu llygaid dybygid ar y perygl o ryfel i dòri allan ag a fyddai i osod Ewrop ar dân gwyllt, a chael hefyd fod mwyrif o'r *Diet* yn erbyn eu cynnygiadau, penderfynasant i gymmeryd y matter yn gwbl i'w dwylaw eu hunain. Anfonwyd cenhadon yn ddioed i Copenhagen i alw ar lywodraeth Denmarc i ddiddymu cyfansoddiad Tachwedd o fewn wyth awr a deugain, ac os byddai i wrthod gwneud hyny y byddai byddinoedd Awstria a Prwssia i gymmeryd meddiant o Schleswig. Yn ofer y ceisiai brenin Denmarc i gael chwech wythnos o amser er cael caniatad y senedd wladwriaethol i wneud y cyfryw gyfnewidiad yn y cyfansoddiad gwladol. Anfonwyd rhan o fyddinoedd Awstria a Prwssia gyda phob brys i Holstein; ac fel yr oeddent yn dyfod i mewn byddai byddinoedd y *Diet* yn cilio o'r neilldu i roddi ffordd i filwyr y ddau allu mawr. A dyma sefyllfa beryglus pethau yn bresennol. Yr unig obaith y gellir gochelyd rhyfel a ymddibyna ar fod y llywodraethau ereill sydd tu allan i Germany i fod yn llwyddiannus yn eu hymdrechiadau i ddarbwyllo Awstria a Prwssia yn ngwyneb y peryglon bygythiedig, a'u perswadio i ganiatau yr oediad rhesymol a ofyuir gan Denmare. Os

caniateir deisyfiad Denmarc, bydd lle i obeithio am barhad heddwch; ond os gwrthodir, ac i ryfel ddechreu, nid oes neb a ŵyr beth fydd y canlyniad.

ITALY A HUNGARY.—Mae 200,000 o wŷr sydd wedi dysgu trin arfau rhyfel yn Italy, mewn llawn awydd am gyfleusdra i gymmeryd meddiant o Venetia. Dylai Awstria ystyried hyn; ac hefyd fod *Proclamasiwn* Kossuth wedi ei thaenu trwy Hungary, yn annog y bobl i fwrw ymaith iau Awstria, ac i wneud ymdrech egniol i adennill eu hannybyniaeth. Nid yw gafael Prwssia ar Posen yn ddiogel, nac ar Daleithiau yr afon Rhine ychwaith. A dichon y cyffrawd cenhedlaethol yn Germany unwaith etto i dòri dros y ceulanau, fel ag i beri nid yn unig ei mân frenhinoedd a thywysogion, ond y ddau allu mawr hefyd i blygu eu penau. Ag ystyried sefyllfa pethau yn bresennol, os bydd i ryfel dòri allan, diau y cyfrifir Awstria a Prwssia yn attebol am y canlyniadau.

AMERICA.—Nid yw y newyddion diweddar o America yn meddu un dyddordeb neilluol. Taenwyd y gair, fel y gwyddys, rai misoedd yn ol, ar awdurdod dybiedig Arglwydd Lyons, y byddai y gwrthryfel i ddarfod cyn pen pedwar mis. Ymddengys yn awr, modd bynag, mai tyb gamsyniol ydoedd. Beth bynag all gymmeryd lle yn ystod y gwanwyn a'r haf dyfodol, mae agwedd a gweithrediadau y Deheuwyr, ar hyn o bryd, yn ymddangos mor benderfynol ag erioed. Bu y flwyddyn ddiweddaf ar y cyfan, mae'n wir, yn un dra llwyddiannus i'r Undebwyr. Er eu bod wedi colli dwy frwydr fawr—Chancellorville a brwydr gyntaf Chickamanga—etto ni ennillodd eu gwrthwynebwyr un fantais oddiwrthynt; tra yr ennillodd yr Undebwyr dair brwydr fawr—Muffreesboro, ail frwydr Chickamanga, a Gettysburg—heblaw mân frwydrau eraill. Cymmerasant Vicksburg a Port Hudson, a thrwy hyny cawsant reolaeth y Mississippi. Llwyddasant hefyd i ymsefydlu yn Brownsville, rhwng y Cynghrair a glenydd Mexico a Rio Grande, gan warchae un o'r porthladdoedd mwyaf gwasanaethgar i'r gwrthryfel. Diau fod y rhai'n yn eunillion pwysig. O'r tu arall, er eu holl drallodion ymddengys fod gan y Dê etto nerth mawr. Cyfrifir nad oes ganddynt ddim llai na 300 mil o filwyr ar y maes; ac nid ydyw eu harweinyddion medrus, beth bynag, yn dangos un duedd i roddi yr ymdrechfa i fyny, a chredir hyd yn oed gan eu gwrthwynebwyr, y gallant ddal o leiaf allan hyd ddiwedd y flwyddyn. Erbyn hyny bydd raid dewis Llywydd newydd yn lle Lincoln. Y mae yn syndod i weled trwy'r cyfan, nad yw y rhyfel cartrefol yn America, ynghyd â'i weithrediadau a'i ganlyniadau erchyll, wedi gosod ond ychydig neu ddim attalfa ar ymfudiaeth tuag yno. Ymddengys oddiwrth adroddiad swyddol dirprwywyr y Mersey fod cynnydd mawr wedi cymmeryd lle mewn ymfudiaeth yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Y nifer a adawsant y Mersey yn 1863, mewn pob math o lestri, oedd 137,982, yr hyn sydd fwy o 76,668 na'r flwyddyn flaenorol. Aeth dros gan mil o honynt i'r Unol Daleithiau, ac yr oedd yn eu plith nifer mawr o Saeson—llawer mwy nag a welwyd er's llawer o amser.

Y FFRANGCOD YN MEXICO.—Derbyniwyd hysbysiadau yn ddiweddar o New York y bydd i fyddin Ffraingc ymadael yn fuan o Vera Cruz, ac y meddiennir y wlad rhwng y ddinas hono a'r dosbarthiadau canolbarthol gan Fexiciaid cyfeillgar. Barna y *Times* ei bod yn dra ammheus a lwydda yr anturiaeth hon o eiddo Ymherawdwr Ffraingc, er ei bod wedi taflu dyled aruthrol ar y wlad. Nid oes ond rhanau bychain iawn o'r wlad wedi cydnabod awdurdod Ffraingc; ac y mae y gwrthwynebiadau yn cynnyddu. Os derbynia yr Archddug Maximilian yr orsedd, nid oes un tebygolrwydd y caiff eistedd yn esmwyth arni yn hir. Er fod llywodraeth yr Unol Daleithiau yn bresennol yn edrych yn ddistaw ar Mexico yn cael ei gorchfygu gan y Ffrangcod, y mae pob lle i gredu y gwnânt ymgais i'w gyru ymaith yn ddioed ar ol terfyniad y rhyfel cartrefol.

YR AIPHT.—Camlas (*canal*) Suez.—Miloedd o flynyddau yn ol bu mwy nag un Pharaoh a lywodraethai yn yr Aipht ynghylch y gorchwyl o geisio cyssylltu Môr y Canoldir â'r Môr Coch. Ac fel y dywedodd Solomon, "nad oes dim newydd dan haul," y mae yr hen orchwyl er ys blynyddau mewn llaw gan gwm-

peini o Ffrangcod dan lywyddiaeth M. Lasseps. Yn ddiweddar derbyniwyd *telegram* o Suez yn Paris yn hysbysu fod Camlas Suez wedi ei orphen i'r fath raddau fel y mae dyfroedd y Nilus a'r Môr Coch wedi ymgyfarfod—digwyddiad ag sydd wedi creu llawenydd mawr yn Paris yn gystal ag yn yr Aipht. Ond y mae gwaith mawr arno eto cyn y bydd yn gymmwys i nofio llongau. Os gellir ei wneud i atteb y diben, bydd yn un o'r anturiaethau pwysicaf a mwyaf gwasanaethgar yn yr oes hon; a lleiheir miloedd o filldiroedd yn y fordaith i India. Ni bydd y draul yn ddim llai nag o ddeg i ddeuddeg miliwn o bunnau.

Bu Farw.

Yn ddiweddar, Ann, gwraig Thomas Evans, Conflux, ger Cribin, yn 43 mlwydd oed, gan adael yn alarus ar ei hol ei gwr a dwy ferch yn efyllion. Perchid hi yn fawr gan bawb a'i hadwaenent am ei hynaws dymmerau a'i hymddygiad amyneddgar a boddlawn tra yn gystuddiol am fisoedd gan glefyd trwm. Pregethodd yr ysgrifenydd mor gymmwysiadol ag y medrai ar ddydd ei hangladd, cyn ei symmud at ei theidau ac eraill i fynwent Llanwnnen. TAU GIMEL

Yn ddiweddar, Mr. D. Davies, gynt o Goedyparc, Bettws, ger Llanbedr, ac o'r Alltgoch, ger yr un lle, yn 66 oed. Dyweded dynion beth a ddywedont, a barned yr hwn sydd o yspryd Phariseaidd beth a farno—dyn diniwed iawn oedd hwn—anhawdd iawn oedd cael ei fath; yn Undodwr cysson, ac yn bregethwr cynnorthwyol ac achlyssurol gyda'r blaid hynny er ys blynyddau, heb feddu y dawn a'r poblogrwydd hynny ar a ofynir gan y werin, medrai bob amser yn ei symylrwydd arferol ddwyn tystiolaeth o egwyddor gywir a chydwybod gonest tuag at Dduw a dyn, a disgynodd i'r glyn trwy ba un y mae yn rhaid i ni oll fyned, heb yr ofnau slafaidd a flinant y rhai hynny ag sydd o egwyddorion gwahanol wrth nesu atti. Yr oedd er ys talm yn aelod cysson o eglwys Caeronen. Pregethodd, ar ddydd ei angladd, y Parch. David Evans, y gweinidog, yn gymmwys iawn, cynnorthwyedig gan yr ysgrifenydd. I eglwys Cappel-y-Groes a'r Cribin y perthynai flynyddau lawer cyn ei symmudiad i Gaeronnen, er mwyn cyfleusdra.

Yn ddiweddar, Mr. David Davies o'r Factory, ger Cainewydd, yngrym ei ieuenctyd, er colled mawr i'w fam, yr hon sydd yn awr yn gwybod pa beth yw'r tristwch o gladdu tri o anwyliaid mewn cylch blwyddyn, sef ei gwr a dau blentyn, merch a mab, ïe, a'r unig fab hefyd, ond na ddigaloned er hynny. "Disgwylied yn ddistaw am Iechydwriaeth yr Arglwydd," a chofied yn fynych am yr emyn hynny o waith Goronwy ag sydd yn cynnwys y llinellau gwir gyssyrus hynny—

> "Fe sych a'i law y llif sy'n gwau,
> Hyd ruddiau'r weddw unig."

Yr oedd yn aelod hardd ei ymddygiad o eglwys Cribin, ac yn esiampl teilwng i'w gyfoedion pa mor weddus y gall dyn ifanc ymddwyn. Er ei fod yn nghanol proffeswyr crefydd o wahanol syniadau iddo ef ac mewn ystyr ym mhell o'r eglwys y perthynai iddi, ac yn gorwedd dan anfanteision mawr, derbyniai yn gysson yr YMOFYNYDD. Ymdrechai ymdrech deg a chadwai y ffydd.

Dydd Llun, Ionawr 4ydd, Mrs. Margaret Morgans, gynt o'r *Blue Bell*, Trecynon, Aberdar, yn 86 oed. Yr oedd yn hen wraig barchus a chyfrifol gan bawb a'i hadwaenai ym mhell ac agos tra fu byw yn y *Bell*, yn enwedigol felly i weinidogion yr Undodiaid yn Nghymru, fel y mai y rhai henaf o honynt sydd yn fyw yn bresenol yn cofio yn ddigon da fel yr oedd yno noddfa gysurus iddynt i letya bryd bynag y buasent yn talu ymweliad a'r gymydogaeth. Er nad oedd yn aelod reolaidd gyda'r Undodiaid (o fewn cof yr ysgrifenydd) eto yr oedd yn selog iawn dros yr egwyddorion, ac yn dal cysylltiad agos â hwynt bob amser hyd ddiwedd ei hoes; fel yr ymddengys ei bod yn ei hoffi yn fwy na dim arall, ae yn barod i wneuthur ei rhan tuag at ddwyn yr achos yn y blaen mor belled ag oedd ei galluoedd yn caniatau. Y Iau canlynol ymgynullodd tyrfa fawr o'i chyd-blwyfolion i'w hebrwng i "dŷ ei hir gartref" tuag at hen eglwys y plwyf, a chyn cychwyn o'r tŷ cafwyd pregeth cymwysiadol ar yr achlysur gan y Parch. R. J. Jones, A.C. oddiwrth Genesis 3, a rhan olaf o'r 19eg adn. "Canys pridd wyt ac i'r pridd y dychweli," a dangosodd mewn modd eglur a phendant mai brau a darfodedig ydyw bywyd dyn pan fo ar y goraf, ac nad oes dim yn sicr i ddyn ond "marwolaeth." Yna awd a'r trancedig i orwedd i'w gwely oer hyd ganiad yr udgorn diweddaf, pan y—

> "Cyfyd fal ŷd o fol âr,
> Gnwd tew egin-had daear,
> A'r môr a yr o'r meirwon,
> Fil myrdd uwch dyfn-ffyrdd y don."

Aberdar. EIDDIL CYNON.

Barddoniaeth.

MYFYRDODAU AR LANAU'R AFON TWELY, ISLAW PENCADER.

MEDI, 1863.

O NA soniwch wrthyf mwyach
Mai dedwyddach tref na gwlad,
Ac mai gwell f'ai gado'r ardal
Dawel hon os am fwynhad;
Mae dywediad gynt a glywais,
Mynych, mynych cofiaf ef:—
"Mai Duw Dad y wlad a drefnodd,
Ond mai dyn a wnaeth y dref."

Os yw'r wlad yn drwm a marwaidd,
Nid yn Nuw y nef bu'r gwall,
Mae'n llawn seiniau ond i'r byddar,
Oll yn hawddgar ond i'r dall;
Dwg pob hwyr a dwg pob bore
I'm amrywiaeth o fwynhad.
Odidoced ei phleserau,
Oll yn bur ac oll yn rhad!

Rhodio allan hyd y maesydd
Dros y soflydd gyda'r nos,
Gweled gwawr y lleuad arian
Draw yn codi uwch y rhos;
Dilyn troion mân yr afon,
Gwrando ar ei bywiog gân,
Syllu ar y coed hynafol
Fagwyd ar ei mynwes lân.

Gwel'd y clymau cnau yn pygno
'N dew mewn llawer cilfach las,
Hwythau'r mwyar duon aeddfed
Yn fy nhemtio i brofi 'u blas,
Llechu dan y tewfrig gangau
Rhag y gawod dyrfau drwm,
Tra'r llifogydd llwyd yn llamu
Draws y llethri tua'r cwm.

O mor hyfryd yw ymddirwyn
Hyd y troellog lwybrau hyn!
Dim ond peraf nodau anian
Yn adseinio trwy y glyn;
Swyn unigedd a thawelwch
Yn teyrnasu dros y fro,
Dadwrdd croch y pentref diwyd
Draw o glyw a braidd o go'.

Mygu'n chwarian mae'r bwthynod
Ynt yn britho'r dyffryn tlws,
Yntau'r gweithiwr fore gododd
Yn llesg ddringo at ei ddrws;
Ond pan genfydd ei rai bychain
Am y cyntaf yn ei gwrdd,
Cymer ddau neu dri i'w freichiau,
A phob blinder aeth i ffwrdd.

Swper gryno, lân a blasus,
Yn ei ddisgwyl yno sydd,
Gwên ei briod i'w roesawi
A rhyw ddifyr stori fydd;
Yntau'r gwridog lanc llygad-lym,
Hynt yr ysgol byth nis gâd,
Ac yn gwlwm ar y stori—
"Eisiau llyfyr newydd, Nhad!"

Tra'r wyf yma'n oedi'n araf
A'r mwyn wlith yn lleitho'r llawr,
Cynar, cynar ant i gysgu,
I gael codi gyda'r wawr;
Gweithio'n galed, huno'n felus,
Weithiau 'nghol breuddwydion têr,
Byw'n gymedrol yn lle meddyg—
Aiff y bywyd bant mor bêr.

Pan ddaw'r ceffyl tân i redeg
Ar wyllt garlam trwy y fro,
A'r mwg tew o'i ffroenau'n esgyn,
Na wnaed yrru byth ar ffo
Hoffus symledd ardal wledig
A'i dirodres ddefion mad,
Ond gadawed hwynt yn dystion
O bleserau pur y wlad.

ETHNIG.

I WRAIG O ABERDAR A GURASAI EI GWR.

Yn awr y cwnws i'r nen—ei phastwn
A phustws ei gefen;
Cnocws, tolcws ei dalcen,
Pan gwaeddws, baeddws ei ben.

O'r "Greal."

I'R MEDDWDOD.

Meddwdod sy bechod nid bychan—mewn gwir
Mae'n gwario'r holl arian;
Dan ddwyfol ŵg dwg i dân
Enaid y dyn ei hunan.

D. MORRIS.

MWY CYWRAIN NA SYLWEDDOL.

"Dyn deffro, dyro dro i dre,
Deall daw dirfawr derfyn dy deithie;
Dysg dy dasg, deisyf drugaredd Duw Dad;
Dyn deall daw dydd dy droi dan dra'd."

ANAD.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.